Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Heddlu Police DYFED-POWYS

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd 2023/24

Drafft f.8

Tabl Cynnwys

**Cyflwyniad a Chwmpas Cyfrifoldebau** ........ 3

**Egwyddorion Llywodraethu Da** ........ 3

**1. Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu'r rheol gyfreithiol.** ........ 3

**2. Sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid** ........ 7

**3. Diffinio canlyniadau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.** 9

**4. Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau bwriadedig** ........ 12

**5. Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth ac unigolion o fewn yr endid** ........ 22

**6. Rheoli risgiau a pherfformiad trwy drefniadau rRheoli mewnol cadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus** ........ 23

**7. Rhoi arferion da ar waith mewn perthynas ag adrodd ac archwilio tryloywder er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol** ........ 27

**8. Adolygu a gwerthuso trefniadau llywodraethu** ........ 29

**9. Casgliad a Datganiad Ymrwymiad** ........ 31

**Barn** ........ 34

**Casgliad** ........ 35

**Cyflwyniad a Chwmpas Cyfrifoldebau**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (y Comisiynydd) a'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am sicrhau bod eu busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau[1]; a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, y rhoddir cyfrif priodol amdano, ac y caiff ei ddefnyddio'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus. Mae ganddynt ddyletswydd hefyd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y caiff eu swyddogaethau eu cyflawni.

Wrth gyflawni eu cyfrifoldeb cyffredinol, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu eu materion a hwyluso'r gwaith o gyflawni eu swyddogaethau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y caiff system gadarn ei chynnal ar gyfer trefniadau rheoli mewnol gydol y flwyddyn, a bod trefniadau ar waith ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Datganiad hwn yn egluro sut mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, sy'n adlewyrchu'r egwyddorion yng nghanllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) *Delivering Good Governance: Guidance Notes for Policing Bodies in England and Wales (2016).* Mae hefyd yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd), mewn perthynas â'r datganiad rheolaeth fewnol a chyhoeddi'r datganiad llywodraethu blynyddol.

Mae'r ddogfen yn nodi canfyddiadau'r gwerthusiad o drefniadau llywodraethu, ac fe'u hategir gan fatrics o dystiolaeth sy'n manylu ar sut mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn arddangos egwyddorion ac ymddygiadau llywodraethu da.

**Egwyddorion Llywodraethu Da**

Mae'r Cyd-fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd a ddefnyddir i lywodraethu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) a Heddlu Dyfed-Powys, ar y cyd ac ar wahân, a chaiff ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol.

Mae'r Fframwaith yn galluogi'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i fonitro cyflawniad yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throseddu a darparu gwasanaethau priodol, cost effeithiol gan gynnwys sicrhau gwerth am arian.

Mae'r Datganiad hwn yn egluro sut mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, sy'n adlewyrchu'r egwyddorion yng nghanllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth *Delivering Good Governance: Guidance Notes for Policing Bodies in England and Wales (2016).*

1. **Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu'r rheol gyfreithiol.**

[1] CIPFA Delivering Good Governance: Guidance for Policing Bodies in England and Wales

Mae'r ddwy Gorfforaeth Undyn yn gweithredu mewn ffordd agored a thryloyw, ac mae prosesau ar waith i gefnogi'r egwyddor graidd o ran moeseg ac uniondeb, sy'n unol â Chod Moeseg y Coleg Plismona.

Cafodd Cod Ymarfer 2023 ar gyfer Plismona Moesegol i Brif Swyddogion a gyhoeddwyd o dan Adran 39A o Ddeddf yr Heddlu 1996 ei adolygu yn ystod y cyfnod adrodd hwn ac roedd yn cynnwys:

- Cod Moeseg 2024 (anstatudol)
- Cod Ymarfer Plismona Moesegol 2023 (statudol)

Mae Cod Moeseg newydd 2024 mewn dwy ran, ac nid yw'r naill na'r llall yn statudol.

- Mae egwyddorion plismona moesegol yn darparu cymorth wrth wneud penderfyniadau moesegol.
- Mae canllawiau ar gyfer ymddygiad moesegol a phroffesiynol wrth blismona yn nodi'r disgwyliadau o ran sut y dylai gweithwyr proffesiynol yr heddlu ymddwyn mewn ffordd sy'n ei gwneud yn haws iddynt ei ddeall a'i dilyn.[2]

Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n cydymffurfio â'r gyfraith, safonau moesegol priodol a safonau ymddygiad proffesiynol. I gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol):

- Cod Moeseg (cod ymarfer, sef casgliad o egwyddorion a safonau ymddygiad proffesiynol)
- Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd ar y Cyd
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Polisi Cysylltiad Hysbysadwy
- Polisi Buddiannau Busnes
- Polisi a Chanllawiau Camddefnyddio Sylweddau
- Polisi Camymddwyn Staff
- Polisi Urddas yn y Gweithle
- Polisi Tegwch yn y Gwaith
- Polisi Aflonyddu Rhywiol
- Polisi Cwynion Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Trefn Gwyno Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn annog ac yn cefnogi swyddogion a staff i herio ymddygiadau sy'n gwneud i gydweithwyr deimlo'n anghyfforddus, yn ofnus neu'n chwithig a'u hadrodd yn gyfrinachol ac yn uniongyrchol i'r Adran Safonau Proffesiynol neu drwy 'Bad Apple', sef system adrodd gyfrinachol sy'n darparu llwyfan ar gyfer sgwrs ddienw ddwyffordd.

Yn ogystal â hyn, mae gwybodaeth am sut y dylai'r heddlu adrodd am ddigwyddiad trwy linell uniondeb Crimestoppers ar gael ar fewnrwyd yr heddlu, ynghyd â llinell adrodd Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu.

[2] Pam mae'r Cod Moeseg wedi newid | Coleg Plismona

Mae gwybodaeth a dderbynnir o'r fforymau amrywiol hyn yn destun datblygiad deallusrwydd rhagweithiol ac ymholiadau monitro busnes cyfreithlon cymesur gan ymchwilwyr a dadansoddwyr yr Uned Gwrth-lygredd.

Lle bo'n briodol ac yn dibynnu ar yr amgylchiadau a'r wybodaeth, ymchwilir i achosion wedyn fel materion ymddygiad ac ystyrir cyfweliadau moesegol ac adolygiadau cyfnodol pellach. Ystyrir rhannu gwybodaeth â fetio, adnoddau dynol a/neu heddluoedd a sefydliadau eraill pan caiff ei ystyried yn angenrheidiol ac yn gymesur.

Mae mesurau ar waith i sicrhau nad yw gweithwyr y Comisiynydd na'r Prif Gwnstabl yn cael eu dylanwadu gan ragfarn, tuedd, neu wrthdrawiad buddiannau wrth ymdrin â rhanddeiliaid gwahanol.

Cyhoeddir Datganiadau o Fuddiant a Chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Heddlu, ac mae gweithdrefnau ar waith er mwyn galluogi i unrhyw wrthdrawiad buddiannau gael ei gofnodi.

Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau tryloyw a hygyrch ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion.

Mae gan yr heddlu Adran Safonau Proffesiynol, a'i rôl yw cynnal safonau moesegol a phroffesiynol Heddlu Dyfed-Powys drwy reoli'r defnydd o reoliadau camymddwyn a gweinyddu cwynion gan aelodau'r cyhoedd yn erbyn swyddogion heddlu a staff yr heddlu islaw rheng y Prif Gwnstabl.

Cyfrifoldeb y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yw cwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl. Bydd y Comisiynydd yn penderfynu sut yr ymdrinnir â'r gŵyn ac a yw'n bodloni'r gofynion i gael ei chyfeirio at Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu.

Ymdrinnir â chwynion yn erbyn staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gan y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Adran Safonau Proffesiynol lle bo angen.

Mae cwynion yn erbyn y Prif Weithredwr yn cael eu cyfeirio at Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i'w hystyried. Panel Annibynnol yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys sy'n delio ag unrhyw gŵyn ffurfiol yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae gan yr heddlu Uned Fetio sy'n bodloni Safonau Proffesiynol i sicrhau cydymffurfedd â'r Cod Ymarfer Cenedlaethol ac Arferion Proffesiynol Awdurdodedig ar gyfer Fetio.

Mae'r Arferion Proffesiynol Awdurdodedig, Ymchwiliad Angiolini[3] a Rheoliadau Diddymu Fetio diwygiedig wedi creu galw sylweddol yn yr uned a briodolir i ddechreuwyr newydd ac unigolion sy'n ymuno â'r heddlu, ac unigolion sy'n aros am gliriad neu adnewyddiadau Fetio Personél nad ydynt yn Swyddogion Heddlu. Er bod cwynion wedi gostwng eleni o gymharu â'r flwyddyn flaenorol; mae achosion yr heddlu yn dal i fod ychydig yn uwch na chyfartaledd yr heddlu tebycaf cyfartalog.

[3] Ymchwiliad annibynnol i sut y llwyddodd heddwas Metropolitan nad oedd ar ddyletswydd i gipio, treisio a llofruddio aelod o'r cyhoedd.

Mae’n bwysig nodi y gall fod gan un achos honiadau lluosog, a bod achosion yn gallu amrywio’n sylweddol o ran cymhlethdod a maint y gwaith ymchwiliol sydd ei angen, felly nid yw’r ffigurau a ddangosir yn cynrychioli galw.

Mae cynnydd yn y galw yn yr Uned Gwrth-lygredd (gan gynnwys cynnydd mewn atgyfeiriadau), cynnydd mewn achosion camymddwyn difrifol, cynnydd mewn ataliadau, a mwy o gymhlethdod a heriau mewn achosion camymddwyn megis heriau cyfreithiol.

| | Dyfed-Powys | % newid | Cenedlaethol | % newid |
|---|---|---|---|---|
| 2020/21 | 753 | - | 67732 | - |
| 2021/22 | 913 | 21% | 75020 | 11% |
| 2022/23 | 1058 | 14% | 81142 | 8% |
| 2023/24 | 884 | -18% | 85458 | 5% |

Roedd y newidiadau i'r ddeddfwriaeth cwynion yn rhoi mwy o rôl i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i gynyddu annibyniaeth a gwella'r modd yr ymdrinnir â chwynion.

Os yw cwyn wedi’i chofnodi o dan Atodlen 3 o Ddeddf Diwygio’r Heddlu 2002 a bod achwynydd yn anfodlon ar ganlyniad y gŵyn, gall gyflwyno cais am adolygiad i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys (os caiff y CHTh ei nodi fel y corff adolygu perthnasol). Bydd yr adolygiad yn ystyried a yw canlyniad y gŵyn yn rhesymol a chymesur.

Cynhelir cyfarfodydd misol rhwng yr Adran Safonau Proffesiynol a SCHTh, lle mae materion penodol yn ymwneud â chwynion yn cael eu trafod ac mae cyfle i ystyried unrhyw faterion goruchwylio a nodir o adolygiadau cwynion. Mae'r cyfarfodydd hefyd yn gyfle i ystyried themâu a dysgu sefydliadol. Yn ogystal â hyn, mae Bwrdd Sicrwydd chwarterol yr Adran Safonau Proffesiynol wedi’i sefydlu i alluogi’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i graffu ar faes busnes safonau proffesiynol.

Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, cafwyd cyfanswm o 59 o adolygiadau yn ystod y cyfnod hwn sydd ychydig yn fwy na’r flwyddyn flaenorol pan gafwyd 51 o adolygiadau. Mae cyfanswm o 57 o adolygiadau cwynion wedi'u cwblhau gan SCHTh yn ystod y cyfnod hwn, gyda phedwar ohonynt wedi'u cario ymlaen o'r flwyddyn flaenorol.

O'r 57 o adolygiadau hynny a gwblhawyd, cafodd pedwar eu cadarnhau, a 53 heb eu cadarnhau. Arweiniodd cyfanswm o bedwar adolygiad at argymhellion a nodwyd gan SCHTh. Mae chwe adolygiad yn cael eu cario drosodd i'r flwyddyn ariannol newydd, oherwydd dyddiad y cyflwynwyd y cais am adolygiad.

Mae'r heddlu wedi datblygu ystorfa ar-lein i'r holl staff gyflwyno ac adolygu'r gwersi a ddysgwyd er mwyn galluogi'r heddlu i nodi gwelliannau ac ymgorffori dysgu i liniaru risg. Mae'r offeryn ar-lein yn cefnogi diwylliant iach o rannu gwybodaeth yn yr heddlu i gynnwys dysgu o gamgymeriadau'r gorffennol a deall lle mae problemau'n codi. Mae gwybodaeth yn cynnwys arfer myfyriol, gweithrediadau, prosiectau ac archwiliadau, dysgu allanol, a syniadau gweithwyr.

Yn ystod y cyfnod rhwng 25 Awst 2023 a 31 Mawrth 2024 cyflwynodd swyddogion a staff 45 o wersi a ddysgwyd, arferion gorau neu syniadau gwella, ac o'r rhain cymeradwywyd 40, gwrthodwyd tri a dychwelwyd un.

Mae'r Comisiynydd yn ddarostyngedig i God Ymddygiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a llw ei swydd, ac mae'r Prif Gwnstabl (a phob unigolyn arall sy'n gweithio ym maes plismona) yn ddarostyngedig i God Moeseg y Coleg Plismona, gyda'r ddau yn cadw at egwyddorion Nolan. Mae Prif Weithredwr y Comisiynydd Heddlu a Throseddu hefyd yn swyddog monitro statudol dynodedig, gyda chyfrifoldeb am gynghori ar gyfreithlondeb a phriodoldeb gweithredoedd a phenderfyniadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn creu amgylchedd ble y gall pob aelod o SCHTh a'r heddlu gyflawni eu cyfrifoldebau yn unol ag arferion da.

Caiff unrhyw ganllawiau a gyflwynir gan bartneriaid a chyrff allweddol, gan gynnwys y Coleg Plismona, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, eu lledaenu ar draws yr heddlu.

Yn yr un modd, caiff arferion gorau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eu sicrhau drwy Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Cymdeithas Prif Weithredwyr Plismona a Throseddu a Chymdeithas Trysoryddion Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a chânt eu lledaenu ymhlith Staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

**2. Sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid**

Mae gan Gomisiynwyr gyfrifoldeb statudol i ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd, a rhaid iddynt geisio barn y gymuned er mwyn creu cyswllt pontio rhwng yr adran blismona a'r cyhoedd. Mae'r ymgysylltiad hwn yn llywio'r blaenoriaethau lleol o ran plismona a osodwyd gan y Comisiynydd, fel y manylir arnynt yng Nghynllun Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys y mae'r Prif Gwnstabl yn ddarostyngedig iddo.

Parhaodd ymgysylltiad cymunedol rheolaidd yn ystod 2023-24 trwy ddiwrnodau ymgysylltu cymunedol misol mewn lleoliadau amrywiol ar draws ardal yr heddlu lle cyfarfu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu â chynrychiolwyr o wasanaethau a gomisiynir, partneriaid, cynrychiolwyr cymunedol, elusennau lleol, ac aelodau'r cyhoedd, gan alluogi'r comisiynydd i ddeall materion lleol ac anghenion plismona.

Parhaodd digwyddiadau ymgysylltu 'Yma i Chi' gyda chynghorwyr a chynrychiolwyr eraill, gan drafod datblygiadau a newidiadau o fewn yr heddlu a buont yn gyfle gwerthfawr i rannu unrhyw faterion neu bryderon lleol.

Cynhaliodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu hefyd ddigwyddiadau 'Drws Agored' ym mhencadlys yr heddlu lle gwahoddwyd arweinwyr cymunedol i sesiynau briffio ar weithgareddau a datblygiadau allweddol o fewn yr heddlu gan wahanol adrannau megis Ystafell Reoli'r Heddlu a'r Ganolfan Atal Troseddau Ganolog, a thrwy hynny wella dealltwriaeth cymunedau o adrannau a swyddogaethau sy'n cefnogi plismona gweithredol.

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ddyletswydd statudol i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol ac mae ganddo gysylltiadau ag ystod eang o sefydliadau partner i fynd i'r afael â phryderon diogelwch cymunedol i leihau trosedd ac anhrefn a sicrhau system cyfiawnder troseddol effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn cynnwys darparu cyllid i brosiectau sy'n bodloni blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

Mae ymgysylltu yn hanfodol i alluogi'r Comisiynydd i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, gan gynrychioli cymunedau lleol.  Mae'r Comisiynydd a'r heddlu wedi ymrwymo i ymgysylltu'n ehangach â phobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth ardal yr heddlu a chynyddu cyfleoedd i bobl o gefndiroedd amrywiol gael eu clywed, rhannu eu barn a llunio polisi i gynnwys y cynllun cydraddoldeb strategol ar y cyd, strategaeth ymgysylltu SCHTh a strategaeth ymgysylltu'r heddlu. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys pobl ifanc yn 'y Sgwrs' sy'n cael ei redeg ar y cyd â llysgenhadon Ieuenctid y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Yn ystod 2023-24, trefnodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu sesiynau grwpiau ffocws gydag unigolion a grwpiau o gymunedau ymylol a lleiafrifol. Mae'r sesiynau'n galluogi'r heddlu i ddeall eu barn a'u profiadau o droseddu yn well, ac ar yr un pryd hefyd yn rhannu gwybodaeth mewn perthynas â rôl a chyfrifoldebau'r Comisiynydd ac i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael i gefnogi'r Comisiynydd i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

Mae ymgysylltiad yr heddlu â'r cyhoedd yn digwydd ar sawl lefel, o gyswllt stryd dyddiol a galwadau ffôn i gyswllt trwy gyfryngau cymdeithasol, rhyngweithio ar-lein trwy wefan yr heddlu ac arolygon ffurfiol mewn perthynas â blaenoriaethau gwasanaeth.

Ail-lansiodd Prif Swyddogion Sioeau Teithiol y Prif Swyddogion a oedd wedi'u gohirio yn ystod pandemig COVID-19 a chymerwyd y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau a gynhaliwyd yn dilyn adborth a gafwyd o nifer o ffynonellau gan gynnwys grwpiau arolwg a ffocws ailachredu gwobr Aur Buddsoddwr mewn Pobl. Bydd Strategaeth Ymgysylltu â'r Gweithlu newydd yn cael ei lansio yn 2024 i ddatblygu ymhellach fecanweithiau i swyddogion a staff ymgysylltu â phrif swyddogion, penaethiaid adrannau, a rheolwyr llinell.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd am eu gwaith a'u cyflawniadau trwy eu gwefannau, cyfryngau cymdeithasol, ac adroddiadau newyddion lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi adroddiadau blynyddol, e-fwletinau misol y Comisiynydd, agendâu a chofnodion cyfarfodydd cyhoeddus, yn ogystal â chofnodion unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Comisiynydd.

Mae ymgynghori â'r cyhoedd yn broses barhaus ac mae'n effeithiol o ran rhoi cyfleoedd i'r cyhoedd rannu eu barn â'r Comisiynydd a llywio'r broses o wneud penderfyniadau. Cynhelir ymgynghoriad wedi'i dargedu ar gyfer penderfyniadau penodol megis praesept y dreth gyngor.

Yn fewnol, mae swyddogion heddlu, staff heddlu a staff SCHTh yn cael eu diweddaru trwy dudalennau mewnrwyd yr heddlu (DPPi2) i gynnwys blogiau prif swyddogion a chyfleoedd i ofyn cwestiynau i'r Prif Gwnstabl. Mae #DyddGwenerFfilm wedi parhau i ddarparu ffilm fer wythnosol sy'n amlygu gwaith allweddol, newyddion, a chyflawniad o bob rhan o'r heddlu, gyda mewnbwn gan y Comisiynydd a phrif swyddogion.

Mae cynllun busnes SCHTh 2024/25 yn cynnwys datblygu Strategaeth Cyfathrebu Mewnol i godi proffil gwaith y Comisiynydd ac i SCHTh gynnwys gwybodaeth a diweddariadau ar fentrau a gwasanaethau a ariennir gan y Comisiynydd. Yn ogystal, bydd y Comisiynydd yn datblygu rhaglen Diwrnod Ymgysylltu â'r Gymuned yn 2024/25 i gynnwys cyfarfodydd â swyddogion timau plismona bro i roi cyfle i rannu eu barn a'u pryderon lleol.

Bydd Panel Heddlu a Throseddu, sy'n cynnwys aelodau o awdurdodau lleol ac aelodau annibynnol, yn craffu ar waith y Comisiynydd ac yn ymgynghori â'u cymunedau lleol. Rôl y panel yw craffu ar weithredoedd a phenderfyniadau'r Comisiynydd, gan ddarparu cefnogaeth a'i herio drwy gymryd rôl cyfaill beirniadol.

Yn 2023/24 cynhaliodd y Panel Heddlu a Throseddu nifer o sesiynau is-grŵp gyda chynrychiolwyr yr heddlu a SCHTh i ddatblygu dealltwriaeth y panel o bynciau allweddol. Roedd hyn yn cefnogi'r panel i ddarparu lefel uwch o graffu ar faterion sy'n peri'r pryder mwyaf i'r cyhoedd.

Mae'r Comisiynydd yn mynd ati'n rhagweithiol i gyhoeddi gwybodaeth i sicrhau ei bod yn agored ac yn dryloyw i'r cyhoedd ar y wefan sy'n helpu i sicrhau ei fod yn bodloni'r rhwymedigaethau o dan Orchymyn Cyrff Plismona Etholedig (gwybodaeth benodedig) 2011 (fel y'i diwygiwyd) a gofynion o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae trefniadau craffu mewnol ar waith i gynnal archwiliadau o'r rhwymedigaethau statudol ar gyfer tryloywder. Gwnaethpwyd gwaith sylweddol wrth i SCHTh drosglwyddo i wefan newydd i sicrhau cydymffurfiaeth yn ystod y cyfnod hwn. Gwneir rhagor o waith yn rheolaidd i sicrhau bod y wefan yn parhau i gydymffurfio ac yn gyfredol.

Mae gan y Prif Gwnstabl gyfrifoldeb statudol i wneud trefniadau er mwyn casglu barn y cyhoedd am drosedd ac anhrefn yn eu hardal. Mae'r Heddlu'n ymgysylltu â'r cyhoedd ar sawl lefel, o gyswllt dyddiol ar y stryd a galwadau ffôn i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd cyhoeddus ac arolygon ffurfiol mewn perthynas â blaenoriaethau, lefelau ac ansawdd gwasanaeth.

Fe wnaeth yr heddlu roi contract allanol i gwmni ymchwil cymdeithasol annibynnol gynnal arolygon boddhad dioddefwyr ym mis Mawrth 2022. Gwnaethpwyd penderfyniad, oherwydd bod arolwg cenedlaethol o fodlonrwydd dioddefwyr yn cael ei ystyried ar gyfer y gwaith allanol hwn ar raglen dreigl 12 mis.

Penderfynwyd na fyddai'r prosiect cenedlaethol yn mynd rhagddo, gan olygu bod yr heddlu yn ymestyn y contract gyda'r cwmni ymchwil cymdeithasol annibynnol am gyfnod pellach o 12 mis.

Ceir canfyddiadau misol o'r arolygon boddhad dioddefwyr a chant eu cyflwyno mewn dangosfwrdd PowerBI sy'n eitem sefydlog ar yr agenda i'w thrafod ym mhob un o gyfarfodydd perfformiad yr heddlu, gan ddarparu'r gallu i nodi tueddiadau a themâu sy'n codi dro ar ôl tro. Yn ogystal, trwy groesgyfeirio'r canlyniadau o brosesau sicrhau ansawdd mewnol, mae'r heddlu yn cael cipolwg ar feysydd gwaith da yn ogystal â meysydd sydd angen eu gwella.

**3. Diffinio canlyniadau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.**

Y Cynllun heddlu a throseddu (2022-2025) yw'r cynllun corfforaethol a osodwyd gan y Comisiynydd. I gefnogi hwn, datblygodd y Prif Gwnstabl Gynllun Cyflawni'r Heddlu. Adroddir ar gynnydd o ran y cynllun hwn i'r Comisiynydd yn y Bwrdd Atebolrwydd Plismona a gynhelir yn gyhoeddus bob chwarter.

Diben sefydledig y Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg yw goruchwylio, cefnogi a gwella perfformiad drwy ddatblygu gweithlu amrywiol sy'n fwy cynhwysol ac sy'n adlewyrchu ein cymunedau'n well. Mae'r bwrdd hefyd yn gyfrifol am les staff a datblygu cynllun y gweithlu i sicrhau bod gan yr heddlu'r sgiliau a'r galluoedd i fodloni heriau plismona yn y dyfodol o fewn ardal Dyfed-Powys. Mae Grŵp Ffydd a Chred newydd wedi'i sefydlu yn yr heddlu sy'n cefnogi diwylliant o barch a chysylltiadau da rhwng pobl o bob ffydd a chred.

Rhagorodd yr heddlu ar ei dargedau ychwanegu swyddogion (ymgyrch Uplift) a osodwyd gan y Swyddfa Gartref gan gyrraedd cyfanswm o 1318 o swyddogion ychwanegol ym mis Mawrth 2024 gan ragori ar y targed o 1304. Gwellodd yr heddlu amrywiaeth y gweithlu gyda chefnogaeth gweithredu cadarnhaol ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir lle mae cyfran y swyddogion benywaidd yn 37% (cynnydd o 1% ar y flwyddyn flaenorol) a chyfran y swyddogion sy'n nodi eu bod yn Ddu, Asiaidd, cymysg neu arall yn 2.3% (gostyngiad o 0.1% ar y flwyddyn flaenorol).

Er mwyn sicrhau gallu'r heddlu i gynnal niferoedd swyddogion a pharhau i allu denu a chadw talent mewn marchnad gyflogaeth gynyddol heriol, mae llwybr lefel mynediad newydd, Rhaglen Mynediad Swyddogion Heddlu (PCEP), ar gael i ddenu ymgeiswyr nad ydynt yn dymuno dilyn gradd mewn plismona. Mae hwn yn cael ei gyflwyno yn 2024/25 a bydd yn cefnogi ymhellach y gwaith o gynnal niferoedd swyddogion yn dilyn ymgyrch Uplift.

Mae Rhaglen Adolygu'r Heddlu a sefydlwyd yn 2022 yn parhau i gefnogi, herio a hwyluso nodi gwelliannau gweithredol a busnes a chyflawni targedau arbedion cyllideb o tua £10 miliwn dros dair blynedd. Cyflwynodd y rhaglen nifer o newidiadau sylweddol drwy gydol 2023/24, gan gynnwys newid mewn strwythurau arweinyddiaeth a phortffolios ym mis Gorffennaf 2023.

Rhoddwyd y cam cychwynnol ar waith o rewi gwariant, oedi cyn llenwi swyddi gwag ac ymddeoliadau gwirfoddol ynghyd â gostyngiadau mewn gwariant cyfalaf a thâl tymor byr, caffael, arbedion cyllideb ganolog nad ydynt yn gyflogau a chyfleoedd i greu incwm. Cafodd cam cyntaf Adolygiad yr Heddlu effaith ar draws yr heddlu, gan arwain at golli talent, arbenigedd a sgiliau ac ymddieithrio staff.

Yn dilyn y newidiadau strwythurol, rhyddhawyd swyddi gwag a oedd yn cael eu cadw'n wag ym mis Hydref 2023 i leihau'r effaith ar les timau heb ddigon o adnoddau yn unol â'r model gweithredu newydd, fodd bynnag, roedd effaith y newidiadau yn ogystal â phrinder a gydnabyddir yn genedlaethol ar draws nifer o feysydd medrus arbenigol wedi cyflwyno nifer o heriau recriwtio a chadw.

Fel rhan o'r Cynllun Gweithlu Strategol, lansiwyd cyfweliadau 'Dweud ac Aros' ym mis Medi 2023 i liniaru'r risg o ymddiswyddiadau swyddogion a staff heddlu.

Mae ail gam Adolygiad yr Heddlu wedi symud i nodi a chyflwyno model gweithredu gweithredol cynaliadwy newydd gan ganolbwyntio o'r newydd ar nodi a chynnal effeithlonrwydd a gwella effeithiolrwydd ar draws pob maes plismona.

Trwy gynnydd ym mhraesept yr heddlu y cytunwyd arno ym mis Chwefror 2024, mae 20 o bobl ychwanegol i ymdrin â chysylltiadau o fewn Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu wedi'u cyflogi i fodloni gofynion a chynyddu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Llwyddodd ymgyrch recriwtio ragweithiol a gwblhawyd yn chwarter cyntaf 2024 i recriwtio'r staff newydd ychwanegol sydd ar gamau amrywiol o raglen hyfforddi Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu.

Mae cylch cynllunio a sicrwydd newydd wedi'i ddatblygu sy'n dwyn ynghyd gofynion datganiad rheoli'r heddlu, proses asesu strategol (MORILE), dadansoddiad galw, galw a ragwelir, cynllunio'r gweithlu, y strategaeth gyfalaf a chynllun cyllid tymor canolig sy'n rhan o ystyriaethau gosod praesept blynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae'r cylch cynllunio sicrwydd newydd wedi'i gynllunio i gefnogi buddsoddiadau a phenderfyniadau'r heddlu gyda modelau gweithredu newydd yn ogystal â rhai sy'n bodoli eisoes. Mae'r broses yn dangos lle y gellir cyflawni mwy o effeithlonrwydd ac mae tryloywder ac atebolrwydd yn sail iddi.

Ym mis Rhagfyr 2023, adolygodd ac ailstrwythurodd yr heddlu Fwrdd Perfformiad yr Heddlu i ddull perfformiad sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau, gan gefnogi gweithredu'n gwbl gyson ar draws yr holl fusnes plismona o ran perfformiad, cynllunio strategol a chyflawniad gweithredol. Rhoi dioddefwyr a chymunedau wrth ei wraidd.

Mae'r ymagwedd yn cyfuno naratif a thystiolaeth ystadegol sy'n galluogi'r heddlu i fynegi'n glir i'r cyhoedd, y gymuned a chyrff craffu perthnasol, yr effeithiau ar blismona yn Nyfed-Powys ac mae'n rhoi mewnwelediad gwerthfawr i'r gweithgareddau a gyflawnir.

Mae monitro ac adrodd yn digwydd trwy gyfres o ddangosfyrddau sy'n cyd-fynd â'r asesiad gwasanaethau dioddefwyr â'r pileri ychwanegol o atal, diogelu a rheoli troseddwyr. Mae cyfarfod perfformiad misol sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr yn cael ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Gwnstabl gyda chyfarfodydd perfformiad wythnosol yn cael eu cadeirio gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol.

Mae Grŵp Cynaliadwyedd yr Heddlu yn parhau i adolygu'r holl effeithiau cynaliadwyedd a cheir adroddiadau gan grwpiau rheoli ynni a rheoli cyfleustodau, olrhain defnydd a mentrau arbed ynni a chynlluniau gweithredu, yn barhaus. Caiff tueddiadau defnydd cyfleustodau a gwelliannau eu holrhain ar lefel adeiladau a chyfleustodau.

Mae gweithrediadau ystadau yn cadw at gynllun datgarboneiddio ac yn cynnal astudiaethau dichonoldeb cynllun cyfalaf sy'n cynnwys technolegau ffotofoltäig, goleuadau LED a thechnolegau lleihau ynni/datgarboneiddio a gwelliannau adeiladwaith.

Mae cyllid ar gyfer gwaith wedi'i gynnwys yn y cynllun cyfalaf ariannol tymor canolig a bydd yn canolbwyntio ar adeiladau pencadlys isadrannol ac adeiladau ehangach yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r heddlu wedi ymrwymo i strategaeth a chynllun gweithredu cynaliadwyedd a datgarboneiddio Cymru gyfan, sy'n parhau i fod yn olrheiniwr canolog mentrau yn 2023/24.

Mae contract rheoli gwastraff newydd a roddwyd ar waith wedi lleihau tirlenwi yn sylweddol, gan leihau ôl troed carbon yr heddlu. Mae pob cynllun caffael yn cael eu tendro gyda 10% yn cyd-fynd â'r adrannau cost ac ansawdd i asesu cynaliadwyedd er mwyn sicrhau y bydd unrhyw effeithiau ar y gadwyn gyflenwi yn effeithio'n uniongyrchol ar ôl troed carbon cymunedau lleol ac effaith economaidd-gymdeithasol ehangach gwariant yr heddlu ar draws yr holl wariant mawr.

Mae dalfa a chanolfan plismona newydd Dafen wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobr Rhagoriaeth Adeiladu yng Nghymru. Mae'r cyfleuster yn cynnwys nifer o nodweddion cyntaf o'u math gan gynnwys ystafell feddygol fforensig fewnol ac mae'n lasbrint o safon aur ar gyfer dalfa. Mae'r cyfleuster hefyd yn sicrhau cynaliadwyedd a chostau rhedeg is trwy gyflawni asesiad BREEAM Rhagorol ac mae wedi creu 31 o swyddi newydd i bobl leol.

**4. Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau bwriadedig**

Cefnogir trosolwg strategol o holl fusnes a gweithrediadau'r heddlu gan strwythur llywodraethu'r heddlu a adolygir yn flynyddol, gyda'r holl fyrddau ac adroddiadau yn gydgyfeirio at Fwrdd Gweithredol yr Heddlu a Bwrdd Perfformiad yr Heddlu a gadeirir gan y Prif Gwnstabl cyn mynd ymlaen i Fwrdd Plismona a Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu a gadeirir gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn parhau i ddatblygu perthynas waith agos â chymunedau Dyfed-Powys ac mae wedi ymrwymo i sicrhau bod gan y cyhoedd lais cryf wrth lunio'r gwasanaeth plismona a'r system cyfiawnder troseddol ehangach.

Mae Cynllun Heddlu a Throseddu newydd yn cael ei ddatblygu yn 2024 sy'n gosod y cyfeiriad strategol a'r blaenoriaethau ar gyfer y pedair blynedd nesaf er mwyn sicrhau bod gwasanaethau plismona a chyfiawnder troseddol yn parhau i fod yn berthnasol, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl sy'n llywio cynllun cyflawni'r heddlu (2022-25).

- Dileu cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu
- Gwneud ardal Heddlu Dyfed-Powys yn rhywle gelyniaethus i'r rheini sy'n delio mewn cyffuriau
- Ymateb yn dosturiol i ddioddefwyr trais rhywiol ac ymosodiad rhywiol difrifol, ac erlid troseddwyr yn ddi-baid

Roedd Heddlu Dyfed-Powys yn un o 14 heddlu i ymuno â'r rhaglen ehangu ar gyfer ymgyrch Soteria Bluestone, rhaglen ymchwil a newid a arweinir gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ac a ariennir gan y Swyddfa Gartref. Nod y cynllun yw trawsnewid ymateb yr heddlu i dreisio a throseddau rhyw difrifol.

Mae themâu ymgyrch Soteria yn cynnwys ymchwiliadau sy'n canolbwyntio ar y rhai a ddrwgdybir, nodi troseddwyr mynych/cyfresol, ymgysylltu â dioddefwyr, dysgu, datblygiad a llesiant swyddogion a gwell defnydd o ddata a gwaith fforensig digidol.

Ym mis Medi 2023, gwnaeth yr heddlu gais llwyddiannus i raglen Strydoedd Mwy Diogel 5 y Swyddfa Gartref, gan roi arian cyfatebol i raglen o ymyriadau sy'n canolbwyntio ar newidiadau mewn agwedd ac ymddygiad wrth ymateb i drais yn erbyn menywod a merched a/neu ei atal.

Mae’r rhaglen yn gyfuniad o gynhyrchion a rhaglenni addysgol sy’n cynnwys ymyriadau hyfforddi gwylwyr, mentrau gwarcheidiaeth gyhoeddus ac ymyriadau plismona sy’n cynnwys ysgolion, busnesau, yr heddlu, partneriaid, a’r gymuned ehangach.

Mae canlyniadau cam 2022/23 y rhaglen wedi dangos canlyniadau cadarnhaol gyda’r gyfran fwyaf o’r rhaglen yn cyflawni yn y flwyddyn 2024/25.

Yn flaenorol, ariannodd Llywodraeth Cymru 89 o swyddi Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (SCCHau) gyda'r heddlu yn ariannu 74 yn annibynnol (cyfanswm o 163 o swyddi SCCH). Lleihaodd toriadau gan Lywodraeth Cymru gyllid i 44 o swyddi gyda'r heddlu yn ariannu 88 o swyddi gan arwain at gyfanswm o 132 o swyddi, gostyngiad o 31 ar y flwyddyn flaenorol.

Mae’r gostyngiadau’n cael eu rheoli drwy wastraff naturiol gyda nifer y swyddi ar ddiwedd mis Mawrth 2024 yn 144.21 cyfwerth ag amser llawn.. Nid yw'r effaith ar feysydd plismona penodol yn hysbys ar hyn o bryd ond mae'n cael ei fonitro'n agos ac mae wedi'i gynnwys yn adolygiad y tîm plismona bro.

Ar ôl i gyllid gan Lywodraeth Cymru dynnu’n ôl o Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan mae’r Comisiynydd a’r heddlu wedi ymrwymo i ddarparu Gwasanaeth Ysgolion Heddlu Dyfed-Powys sy’n ddeinamig ac yn seiliedig ar heriau lleol, anghenion a galwadau plismona mewn ysgolion.

Bydd y swyddi presennol yn cael eu cadw, ac mae gwaith yn cael ei adolygu a’i ailgynllunio’n helaeth ar hyn o bryd gyda gweithgareddau ac ymgysylltu ag ysgolion drwy gydol mis Mai a mis Mehefin 2024, yn barod ar gyfer cyflwyno a gwerthuso cychwynnol yn hydref 2024, a chyfnodau ysgol gwanwyn 2025.

Mae effeithiau tynnu arian yn ôl ar gyfer SCCHau a'r rhaglen ysgolion wedi'u lliniaru trwy drafodaethau praesept gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Rhwng Mai 2023 a Hydref 2023, sefydlwyd ymgyrch Cambrian yn dilyn cynlluniau’r Swyddfa Gartref i gartrefu 240 o geiswyr lloches yng Ngwesty Parc y Strade yn Sir Gaerfyrddin, gan arwain at brotestiadau lleol a rhoi pwysau sylweddol ar yr heddlu.

Cododd protestwyr strwythurau dros dro yn union y tu allan i'r gwesty a chynnal presenoldeb parhaol yn y lleoliad rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Hydref 2023.

Yn ystod y cyfnod hwn bu anhrefn sylweddol, gan gynnwys ymosodiad llosgi bwriadol ar y gwesty, gan arwain at nifer sylweddol o bobl yn cael eu harestio.

Er mwyn mynd i’r afael yn effeithiol â’r heriau a gyflwynwyd gan y gweithgarwch protestio, defnyddiwyd adnoddau arbenigol o bob rhan o’r heddlu, gan rwystro gallu’r heddlu i gyflawni ei gyfrifoldebau yn y modd gorau posibl mewn ardaloedd eraill.

Roedd galwadau ychwanegol yn cynnwys timau ymchwilio ac roedd angen tynnu ymchwilwyr o adrannau arbenigol ar draws yr heddlu a buddsoddi’n sylweddol mewn ymgysylltu â’r gymuned a gweithio mewn partneriaeth, gan gyfyngu ar allu ac adnoddau’r heddlu i ddarparu plismona cymunedol mewn ardaloedd eraill sy’n peri pryder. Arweiniodd hyn at gyfnod heriol a arweiniodd hefyd at gostau sylweddol yn ystod cyfnod o newid a thrawsnewid sylweddol ar draws yr heddlu.

Cododd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a phartneriaid bryderon ynghylch yr effeithiau ar yr heddlu a'r gymuned ehangach o ran costau ac adnoddau. Cododd y Comisiynydd faterion gyda'r Ysgrifennydd Cartref a gweinidogion, gan fynegi pryderon a galw am ohirio'r cynlluniau dadleuol a chynnal adolygiad o wasgariad ceiswyr lloches.

Roedd cynnig y Swyddfa Gartref yn groes i strategaeth Llywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar fodel cynaliadwy sy'n cynnig ateb tymor hwy i geiswyr lloches yn ardal Dyfed-Powys, ac un y mae pobl Cymru wedi'i groesawu a'i gefnogi. Roedd y gost gyffredinol i'r heddlu yn sylweddol gyda'r cais am arian ychwanegol a gyflwynwyd i'r Swyddfa Gartref yn cael ei wrthod.

Yn ystod cyfnodau brig ac yn ystod ymchwydd mewn galw, mae'r heddlu wedi cynnal ei ymrwymiad i sicrhau ymateb plismona effeithiol i'n cymunedau trwy flaenoriaethu adnoddau digonol, cydbwyso diogelwch a lles swyddogion, tra'n galluogi'r heddlu i gyfathrebu'n effeithiol, darparu gwelededd ac ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd.

Mae goblygiadau cynnydd annisgwyl a disgwyliedig mewn galw yn amrywio o symudiadau cyhoeddus torfol anghyfyngedig, pryderon diogelwch cyhoeddus cysylltiedig, mannau gorlawn, i blismona cyffredinol a chynnydd mewn troseddau, i gyd yn effeithio ar bartneriaid ar draws ardal ddiffiniedig Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed-Powys. Amcan strategol yr ymgyrch hon yw cadw ein cymunedau'n ddiogel, diogelu'r rheini sy'n fregus, amddiffyn pobl rhag niwed difrifol ac ymgysylltu â chymunedau.

Trwy gydol y flwyddyn, mae cynlluniau penodol ar gyfer lleoliadau allweddol yn cael eu creu lle mae bygythiad penodol wedi'i nodi yn gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae cynlluniau patrôl ar gyfer ardaloedd o bwys, megis traethau a mannau agored, wedi'u creu a byddant yn cael eu gweithredu.

Nodir terfynau galw ac adnoddau ar draws ystod o risgiau i gefnogi gwneud penderfyniadau gwrthrychol, seiliedig ar dystiolaeth sy'n cael eu hadolygu'n wythnosol mewn cyfarfodydd rheoli dyddiol ar draws ardaloedd plismona lleol).

Arweiniodd heriau staffio mewn cyfathrebu corfforaethol at lai o ymgyrchoedd allanol y cyfnod hwn nag yn y blynyddoedd blaenorol, ac ers hynny mae'r capasiti o fewn cyfathrebu corfforaethol wedi'i gryfhau. Fodd bynnag, parhaodd cyfathrebu corfforaethol i gefnogi plismona gweithredol gydag ymchwiliadau parhaus, apeliadau, a chyhoeddusrwydd ar gyfer canlyniadau llys mewn achosion cyffuriau, llofruddiaeth, cam-drin domestig ac achosion eraill.

Roedd cyfathrebiadau allweddol eraill yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys lansio technoleg dronau, a chefnogaeth i Raglen Adolygu'r Heddlu a oedd yn cynnwys nifer o ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu i ddenu rhai sy'n delio â galwadau, cwnstabliaid a staff heddlu arbenigol i'r gweithlu.

Bu'r tîm cyfathrebu hefyd yn cefnogi'r brotest hirfaith ymgyrch Cambrian, a thrwy gydol mis Rhagfyr 2023 a mis Ionawr 2024 cynhaliodd nifer o ymgyrchoedd yn ymwneud ag ymosodiadau difrifol, trais yn ymwneud ag alcohol a cham-drin domestig, gan hyrwyddo dulliau adrodd a'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr.

Mae'r heddlu wedi'i raddio gan Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi[4] (cyhoeddwyd 2023) fel bod yn ddigonol ar gyfer ymchwilio i droseddau, atal trosedd, pwerau'r heddlu a thriniaeth gyhoeddus, ymateb i'r cyhoedd, rheoli troseddwyr ac arweinyddiaeth a rheolaeth yr heddlu.Y mhlith y meysydd sydd angen eu gwella mae amddiffyn pobl fregus a datblygu gweithlu cadarnhaol.

Yn arolygiad blaenorol Peel, roedd meysydd yr oedd angen eu gwella yn cynnwys yr angen i wella sut mae'r heddlu yn craffu ar ddata stopio a chwilio a'r defnydd o rym, a gwelliannau mewn ymchwiliadau i stelcio ac aflonyddu.

Cyflwynwyd a gweithredwyd gwelliannau mewn prosesau, adrodd a chofnodi stopio a chwilio i gynnwys dangosfyrddau Power BI newydd a ddefnyddir yn fewnol, a phanel craffu newydd sy'n monitro'r defnydd o stopio a chwilio ar draws yr heddlu.

Rhoddwyd cydsyniad Brenhinol i newidiadau i Ddeddf Trefn Gyhoeddus (2023) ym mis Mai 2023 a oedd yn cynnwys defnydd newydd ac ehangach o weithdrefnau stopio a chwilio a throseddau newydd yn ymwneud ag ymyrraeth â seilwaith cenedlaethol.

Mae gwelliannau mewn ymchwiliadau i stelcio ac aflonyddu bellach yn cynnwys cynnal adolygiadau eilaidd o holl achosion Stelcio, Aflonyddu a Cham-drin Domestig yn hytrach na chynnal adolygiadau ar achosion risg uchel yn unig. Mae'r heriau o ran galw sy'n gysylltiedig â'r newid hwn wedi'u bodloni drwy fuddsoddi mewn staff ychwanegol i gynnal adolygiadau a chreu swydd cydlynydd stelcio newydd a swyddog gorchmynion sifil newydd.

Datblygodd a darparodd yr heddlu becyn hyfforddiant ar fregusrwydd newydd, ac mae datrysiad awtomeiddio deallus newydd yn cael ei ddatblygu yn 2024.

Canfu asesiad Peel (2023-25) y gall y cyhoedd fod yn dawel eu meddwl bod yr heddlu yn cynnal ymchwiliadau trylwyr ac effeithiol ond cydnabu'r heriau o ran archwilio dyfeisiau digidol yn brydlon yn ystod y cyfnod hwn.

Gostyngodd y galw ac ôl-groniadau yn y gwasanaeth fforensig digidol a adroddwyd yn 2022 82% yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn dilyn nifer o newidiadau proses yn 2023. Mae buddsoddiadau mewn caledwedd a meddalwedd newydd wedi'u gwneud, gan arwain at asesiad cyffredinol o sicrwydd sylweddol heb unrhyw argymhellion gan archwiliad mewnol.

Amlygodd arolygiad Peel 2023-25 yr angen i'r heddlu gyflawni canlyniadau priodol yn gyson i ddioddefwyr, yn benodol y dioddefwr lle na cheir gweithredu pellach.

Er bod arolygiad Peel yn cydnabod bod yr heddlu yn cynnal ymchwiliadau trylwyr ac effeithiol ar ran y cyhoedd, amlygwyd gwelliannau i sicrhau bod contract dioddefwr yn cael ei gwblhau lle bo'n briodol.

Mewn ymateb i'r argymhelliad mae'r heddlu yn adolygu prosesau cyfredol ac yn ystyried opsiynau technoleg ac atebion i sicrhau bod yr heddlu yn cydymffurfio â gofynion y cod dioddefwyr a bydd hefyd yn cefnogi unrhyw ofynion ychwanegol o dan ymgyrch Soteria NOM a newidiadau i'r

[4] PEEL 2023–25: Effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu – Arolygiad o Heddlu Dyfed-Powys (justiceinspectorates.gov.uk)

Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion. (2024), y rhagwelir y bydd yn cael Cydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2024.

Amlygwyd mwy o welededd a hygyrchedd timau plismona bro i leihau'r graddau y cânt eu dargyfeirio i ddyletswyddau eraill fel maes i'w wella. Mae timau plismona bro yn treulio 61% o amser ar gyfartaledd fel presenoldeb gweladwy o fewn y gymuned yn erbyn targed o 75% a osodwyd gan yr heddlu oherwydd eu bod yn cael eu dargyfeirio i ddyletswyddau eraill megis cefnogi timau plismona ymatebol.

Mae model plismona bro'r heddlu yn parhau i fod wrth wraidd y broses o ddarparu gwasanaethau ac mae wedi'i ategu gan ymateb lleol, ymchwilio i droseddau, gweithrediadau arbenigol a swyddogaethau diogelu a gefnogir gan ganolfannau canolog. Mae'r canolfannau'n darparu adnoddau ymchwilio i droseddau ychwanegol a chymorth amlasiantaeth arloesol i fodloni nodau ac amcanion allweddol y Cynllun Heddlu a Throseddu sy'n gosod cyfeiriad strategol a blaenoriaethau'r heddlu.

Mae galw uniongyrchol ac anuniongyrchol wedi cael effaith ar blismona bro i gynnwys galw brig yr haf, ymgyrch Cambrian, a galw iechyd meddwl.

Mae'r heddlu'n gweithio tuag at gysondeb o ran ymgysylltiad cymunedol trwy gyflwyno fframwaith perfformiad newydd, strategaeth plismona bro a strategaeth atal timau plismona bro a strategaeth iechyd meddwl newydd i gynnwys newidiadau a gyflwynwyd gan yr ymgyrch Unigolyn Cywir Gofal Cywir. Mae swydd atal uwch-arolygydd newydd wedi'i sefydlu i arwain y gwaith hwn.

Mae'r heddlu wedi cynnal y gwelliannau yn ansawdd ffeiliau'r cyfnod hwn sy'n parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o ran canlyniadau mewn Llysoedd Ynadon a Llysoedd y Goron. Gan gynnwys cynnal canran y ffeiliau cam-drin domestig a gyflwynir i Wasanaeth Erlyn y Goron.

Mae'r strategaeth gyfalaf, strategaeth rheoli'r trysorlys a'r polisi cronfeydd yn gydrannau allweddol o'r broses hon a rhoddir cyflwyniadau ar ganlyniadau a chynigion cyllidebol i'r Comisiynydd, i aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio, i aelodau archwilio allanol ac i aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu yn y seminar cyllid yn flynyddol.

Caiff y cynllun ariannol tymor canolig a'r strategaeth gyfalaf eu cefnogi yn eu tro gan gynllun arbedion manwl, cynllun gweithlu, cynllun hyfforddi, strategaeth TGCh, strategaeth ystadau, a rhaglen adnewyddu cerbydau. Mae hyn yn galluogi cyllidebau manwl (refeniw a chyfalaf) a sefydliadau gweithlu i gael eu neilltuo i feysydd adrannol. Cefnogir rheolwyr gweithredol a phenaethiaid adrannau gan bartneriaid busnes cyllid ac arbenigwyr AD sy'n eu galluogi i nodi pwysau a bwydo i mewn i'r cylch cynllunio a monitro ariannol.

O safbwynt gweithredol o ddydd i ddydd, cefnogir y broses gan dasgau a sesiynau briffio, i sicrhau bod staff yn cael y dasg briodol ac yn cyfrannu'n llawn mewn ffordd sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cyffredinol a blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

Mae Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA (2020) yn ddull sy'n seiliedig ar egwyddor i gefnogi arfer da mewn rheolaeth ariannol ac ar gyfer dangos gwydnwch ariannol a chynaliadwyedd.  Mae'r Cod

Rheolaeth Ariannol yn seiliedig ar saith safon rheolaeth ariannol sy'n cwmpasu arweinyddiaeth, atebolrwydd, tryloywder, safonau, sicrwydd a chynaliadwyedd.

Cynhaliwyd hunanasesiad blynyddol ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys gan y Prif Swyddog Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllid ym mis Ionawr 2024 a oedd yn edrych ar draws 17 o agweddau sylfaenol a 68 o gwestiynau. Ystyriodd yr adolygiad y trefniadau sydd ar waith i asesu cydymffurfiaeth ag arferion gorau a nodi meysydd i'w gwella. Cyflwynwyd canlyniad yr hunanasesiad i aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio yn ystod y seminar cyllid fel rhan o'u gwaith sicrwydd ym mis Chwefror 2024. Mae'r asesiad diweddaraf yn dangos cydymffurfiad gwell mewn llawer o feysydd a meysydd a nodwyd lle mae angen gwelliannau pellach. Mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu i adolygu prosesau yn y meysydd hyn sy'n canolbwyntio'n bennaf ar drefniadau llywodraethu archwilio, cynllunio senarios cydnerthedd ariannol a defnyddio gwerthuso opsiynau / canllawiau defnyddwyr.

Mae trefniadau llywodraethu yn cefnogi penderfyniadau cadarn i gyflawni'r canlyniadau gofynnol ac yn darparu llinell adrodd glir ar gyfer penderfyniadau a chamau gweithredu. Mae gan uwch-arweinwyr islaw lefel prif swyddogion fwy o gyfrifoldeb am gadeirio a gwneud penderfyniadau, sy'n cefnogi camau gweithredu hyblyg ac ymatebol, canlyniadau gwell ac atebolrwydd am wneud penderfyniadau.

Mae'r heddlu yn cynnal adolygiad blynyddol o'r strwythur llywodraethu corfforaethol lle caiff amcanion strategol a sefyllfa bresennol yr heddlu eu hystyried yn ogystal â gofynion y dyfodol ynghyd â'r canlynol:

- Asesiad o ba mor dda y mae'r llywodraethu yn cefnogi'r heddlu i gyflawni ei rwymedigaethau cydymffurfio a rheoli risg.
- Cael gwell dealltwriaeth ynghylch a yw'r llywodraethu yn cefnogi neu'n rhwystro cyflawni'r blaenoriaethau a'r strategaethau
- Nodi meysydd i'w gwella
- Egluro rolau a chyfrifoldebau
- Adolygu'r broses gwneud penderfyniadau tactegol a strategol
- Asesu cadernid a phriodoldeb

Yn 2022/23, nodwyd tri maes i'w gwella i'w cynnwys.

- Gwelliannau i aliniad cyfarfodydd
- Gwelliannau o ran cydnabod ac adrodd ar feysydd gwaith rhyngddibynnol wrth adrodd
- Gwelliannau o ran disgyblaeth cyfarfodydd/gweinyddu papurau (diffyg cysondeb wrth adrodd)

Arweiniodd newidiadau a phenodiadau prif swyddogion ac uwch-arweinwyr yn 2023 at nifer uchel o gyfarfodydd a dyddiadau cyfarfodydd yn cael eu newid a effeithiodd ar gysondeb cyfarfodydd. Er gwaethaf y newidiadau, bu gwelliannau mewn nifer o gyfarfodydd o ran amseroldeb ac adrodd.

Mae'r strwythur llywodraethu a gyflwynwyd yn 2022 yn parhau i weithio'n dda gyda hyblygrwydd i gynnwys newidiadau neu ofynion busnes newydd gyda mân newidiadau yn cael eu gwneud yn 2023.

Mae disgyblaeth o ran gofynion adrodd wedi lleihau ychydig mewn rhai meysydd, yn arbennig i fodloni'r gofyniad am ddiweddariadau ysgrifenedig cyn cyfarfodydd a chynnydd mewn diweddariadau llafar mewn rhai meysydd. Mae tystiolaeth o gynnydd mewn cyfarfodydd tactegol (islaw'r llinell), a dyblygu adrodd.

Ymhlith y materion eraill a nodwyd mae dileu eitemau sefydlog ar agendâu cyfarfodydd strategol a defnyddio templedi a fformatau gwahanol ar gyfer papurau a gweinyddu.

I ddechrau, roedd yr holl gyfarfodydd strategol ac adroddiadau yn cydgyfeirio i'r Bwrdd Newid a Thrawsnewid ac yn rhan olaf 2023 yn cael eu symud i Fwrdd Gweithredol yr Heddlu a adolygwyd.

Datblygwyd cylch gorchwyl newydd ar gyfer Bwrdd Perfformiad yr Heddlu yn 2023 yn dilyn argymhellion o archwiliad. Roedd y materion a godwyd gan yr archwiliad yn cynnwys diffyg atebolrwydd am berfformiad yr heddlu, strwythur yr agenda nad oedd yn gorfforaethol heb unrhyw eitemau sefydlog arni, ac ni chymerwyd cofnodion yn y cyfnod 2022/23. Mae'r materion hyn wedi'u datrys.

Mae Bwrdd Perfformiad yr Heddlu yn cyfarfod ar yr un diwrnod â Bwrdd Gweithredol yr Heddlu ac mae'n gweithredu'n gwbl gyson â Bwrdd Plismona a Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu. Arweiniodd y newidiadau a gyflwynwyd gan yr Uned Gwella Gwasanaeth at sicrwydd sylweddol gydag un argymhelliad gan archwilio mewnol yn 2023. Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â chanlyniad perfformiad yn y ddalfa, roedd y cynllun cyflawni ar gyfer hyn wedi cychwyn cyn yr archwiliad.

Ym mis Mehefin 2023, adolygwyd a diweddarwyd cylch gorchwyl y Bwrdd Newid a Thrawsnewid i wella llywodraethu ac adrodd ar brosiectau a rhaglenni newid a thrawsnewid mwy o faint o fewn yr heddlu. Mae'r newidiadau'n cefnogi cynigion ar gyfer penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol drwy broses fwy cadarn o ran achosion busnes a monitro ac adrodd ar newid yn barhaus.

Ym mis Rhagfyr 2023, adolygwyd y Bwrdd Strategol Cyfiawnder Troseddol, y Ddalfa ac Ymchwiliadau ac ychwanegwyd adroddiadau cudd-wybodaeth i symleiddio llywodraethu ac adrodd ymhellach i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau mwy effeithlon ac amserol ac i gyd-fynd yn well â newidiadau strwythurol a phortffolio.

Yn 2023, adolygwyd a diweddarwyd y Bwrdd Gofyniad Plismona Strategol yn dilyn cyhoeddi'r Gofyniad Plismona Strategol newydd i sicrhau trosolwg o'r galluoedd cyfunol y mae'n ofynnol i'r heddlu eu rhoi ar waith i gefnogi trefniadau cenedlaethol, tra'n sicrhau bod trefniadau lleol yn parhau i fod yn berthnasol ac effeithiol.

Mae cynnwys trais yn erbyn menywod a merched fel bygythiad cenedlaethol yn y Gofyniad Plismona Strategol newydd, yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r heddlu sydd hefyd yn adrodd yn dactegol drwy'r Bwrdd Bregusrwydd Strategol sefydledig.

Sefydlwyd cylch gorchwyl newydd ar gyfer y Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg yn dilyn materion a adroddwyd yn adolygiad llywodraethu 2023. Bu nifer o welliannau ers y flwyddyn flaenorol,

fodd bynnag, erys meysydd i'w gwella gan gynnwys sicrhau bod angen i'r wybodaeth a adroddir fod yn fwy strategol yn ei chyd-destun, amlygu risgiau a phenderfyniadau / uwchgyfeirio.

Mae'r Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth yn cynnwys gwybodaeth fanwl sydd wedi'i strwythuro'n dda, fodd bynnag, yn dilyn adolygiad mae nifer o welliannau wedi'u gweithredu i'w cynnwys.

- Datblygu cofrestr asedau gwybodaeth
- Dangosfyrddau cryno ar gyfer risgiau seiberddiogelwch

Roedd newidiadau i gylch gorchwyl byrddau eraill yn 2023/24 yn cynnwys adrodd cudd-wybodaeth i'r Bwrdd Strategol Cyfiawnder Troseddol, y Ddalfa ac Ymchwiliadau ac adrodd ar atal i'r Bwrdd Bregusrwydd Strategol.

Mae gofynion llywodraethu ac adrodd yr heddlu yn cyd-fynd â'r cylch cynllunio a sicrwydd newydd, yn benodol mewn perthynas ag amseriadau cynhyrchu'r datganiad llywodraethu blynyddol.

Yn dilyn etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2024, gofynnodd y Comisiynydd am adolygiad sylfaenol o'r trefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau bod strwythurau'n cefnogi'r gwaith o gyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn llawn. Ar ôl cwblhau'r gweithgaredd hwn, a fydd yn cynnwys ymgynghori â'r Prif Gwnstabl ac aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu, bydd y fframwaith llywodraethu corfforaethol hefyd yn cael ei adolygu. Mae'r fframwaith llywodraethu corfforaethol yn cynnwys:

- Datganiad llywodraethu corfforaethol sy'n sicrhau eglurder i'r ffordd y mae'r ddwy gorfforaeth yn llywodraethu ar y cyd ac ar wahân.
- Cod llywodraethu corfforaethol sy'n nodi sut y caiff yr egwyddorion craidd eu rhoi ar waith, gan ddisgrifio'r strategaethau, y trefniadau, yr offerynnau, a'r rheolaethau i sicrhau llywodraethu da yn y ddwy Gorfforaeth Undyn,
- Cynllun llywodraethu corfforaethol sy'n diffinio'r paramedrau y bydd y Corfforaethau Undyn yn cynnal eu busnes oddi mewn iddynt,
- Polisïau a gweithdrefnau ar wahân ar gyfer pob Corfforaeth Undyn, gyda phrotocolau lle maent yn gweithredu ar y cyd.

Mae'r fframwaith comisiynu yn nodi sut mae'r comisiynydd yn cydweddu'r gyllideb gomisiynu â'r themâu allweddol a'r blaenoriaethau strategol yn y Cynllun Heddlu a Throseddu, o dan oruchwyliaeth y Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu.

Mae'r fframwaith yn rhan o gyfres o ganllawiau corfforaethol a dogfennau a ddatblygwyd i gefnogi prosesau ac arferion cyson ac effeithiol ac mae'n cefnogi gweithredu prosiectau a newid gan roi mwy o bwyslais ar enillion effeithlonrwydd a/neu arbedion ariannol.

Aeth system rheoli cofnodion Niche yn fyw ar 15 Mai 2023 fel y cynlluniwyd a llwyddwyd i weld yr heddlu yn mudo o'i systemau etifeddol i Niche.

Roedd y symudiad i Niche yn cynnwys gwaith sylweddol yn adolygu prosesau cyfredol, mapio prosesau newydd hyd at weithredu'r prosesau newydd yn Niche, gan weithio gyda thri heddlu arall o fewn Cydweithrediad Arfordir y Gorllewin i alinio prosesau lle bynnag y bo modd.

Roedd mudo i Niche yn cynnwys nifer o ffrydiau gwaith, ac roedd angen cyflawni pob un ohonynt ochr yn ochr â'i gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn mynd yn fyw yn llwyddiannus. Roedd y rhain yn cynnwys ail-lunio datrysiad symudol Pronto, mudo i'r system genedlaethol ar gyfer adrodd a rhannu gwrthdrawiadau (CRaSH) ac integreiddio â'r system brosesu cosb benodedig genedlaethol (PentiP).

Roedd gwaith integreiddio arall yn cynnwys:

- Trosi ôl gofnod o ddata o systemau etifeddol
- Hyfforddi pob defnyddiwr ar draws yr heddlu
- Gweithredu TWIF (rhyngwyneb dwy ffordd gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron) o'r rhyngwyneb un ffordd
- Integreiddio rhyngwyneb ar gyfer STORM, gorchymyn a rheoli a chronfa ddata genedlaethol yr heddlu
- Gwybodaeth reoli i alluogi cynhyrchu dangosfyrddau perfformiad

Parhaodd gweithredu'r system teleffoni brys newydd i ddisodli'r systemau gorchymyn a rheoli integredig. Daeth materion technegol i'r amlwg ac mae'r cyflenwr yn mynd i'r afael â nhw cyn iddo fynd yn fyw oherwydd natur risg uchel y maes busnes.

Mae cam cyntaf cyflwyno'r teleffoni newydd a'r system gorchymyn a rheoli integredig wedi'u trefnu ar gyfer mis Medi 2024. Yn y cyfamser, mae gwaith paratoi dylunio busnes a thechnegol sylweddol yn cael ei wneud gyda chyflenwyr newydd i sicrhau bod y system yn addas at y diben ac yn dderbyniol yn weithredol.

Mae gwasanaeth data gorfodi'r gyfraith cenedlaethol yn lle cronfa ddata genedlaethol yr heddlu yn dilyn dull sy'n canolbwyntio ar y cynnyrch i gynnwys nifer o gynhyrchion a gyflenwyd y cyfnod hwn. Mae cynnydd da wedi'i wneud yn unol ag amserlenni'r prosiect cenedlaethol a'r heddlu yn bodloni'r holl dargedau a osodwyd hyd yma.

Mae'r heddlu wedi symud i blatfform gwybodaeth reoli a gynhelir yn y cwmwl (Microsoft PowerBI). Mae'r platfform yn cydymffurfio â pharth glanio sicr yr heddlu ar MS Azure a gwnaed gwaith gan y tîm perfformiad o fewn yr Uned Gwella Gwasanaeth, i ddarparu dangosfyrddau perfformiad, sy'n darparu galluoedd dadansoddi data gwell i'r heddlu. Mae'r galw am ddangosfyrddau a gwell adroddiadau yn sylweddol gyda galw mawr ar yr adran yn y flwyddyn i ddod.

Fel rhan o daith awtomeiddio digidol yr heddlu, darparwyd y system awtomeiddio prosesau robotig cyntaf ar gyfer MARAC (cynhadledd asesu risg amlasiantaethol) cyn mudo i Niche. Roedd angen gwaith newydd ac ychwanegol ar ôl gweithredu Niche gan ddefnyddio arbenigwr trydydd parti i helpu i ddatblygu proses newydd, ac i uwchsgilio staff mewnol. Disgwylir i'r broses newydd fynd yn fyw yn haf 2024, ac mae 20 o brosesau eraill yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

Gweithredwyd Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Power Platform Microsoft i rymuso meysydd/adrannau busnes i ddigideiddio ac awtomeiddio eu prosesau tra'n cynnal goruchwyliaeth ganolog hollbwysig a llywodraethu'r Power Apps sy'n cael eu datblygu.

Mae datrysiad offeryn golygu dogfen beilot yn cael ei brofi gan grŵp o ddefnyddwyr yn yr heddlu i hysbysu a llywio achos busnes dros newid ar gyfer buddsoddi mewn datrysiad yn y dyfodol.

Cymeradwywyd strategaeth ddigidol TGCh newydd 2024-2030 gan yr heddlu a SCHTh y cyfnod hwn. Mae'r strategaeth yn nodi'r hyn y gall yr adran TGCh ei gyflawni sy'n cefnogi swyddogion a staff gyda'r technolegau priodol i gyflawni eu rolau mewn modd effeithlon.

Mae'r galw ar draws TGCh yn parhau i fod yn fwy na chapasiti adnoddau gyda blaenoriaethau'n cael eu hadolygu'n gyson. Mae angen gohirio nifer o feysydd a datblygiadau hyd nes y bydd adnoddau ar gael. Mae'r tîm prosiectau digidol wedi profi galwadau sylweddol y cyfnod hwn sy'n effeithio ar y gallu i gyflawni prosiectau newydd yn gyflym. Mae hyn yn rhannol oherwydd anawsterau recriwtio staff technegol profiadol sydd wedi cael ei gydnabod fel mater cenedlaethol ar draws yr heddlu.

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r heddlu yn cydweithio â phartneriaid plismona yng Nghymru (Gwent, gogledd Cymru, de Cymru), ac maent wedi ymrwymo i gydweithio i amddiffyn cymunedau Cymru rhag risg a niwed. Cefnogir cydweithredu yng Nghymru gan strwythur llywodraethu ac atebolrwydd sy'n diffinio'n glir rolau a chyfrifoldebau'r Grŵp Plismona yng Nghymru a Grŵp Prif Swyddogion Cymru. Fel cadeirydd Plismona yng Nghymru o fis Mehefin 2024, mae'r Comisiynydd yn ceisio cryfhau trefniadau llywodraethu ymhellach drwy greu bwrdd goruchwylio ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i'w cefnogi i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â gweithgarwch cydweithredol fel yr amlinellir ym Mhrotocol Plismona 2011.

Er gwaethaf yr heriau gweithredol a systematig a'r tirwedd ariannol anodd, mae heddluoedd Cymru yn cydweithio i sicrhau y caiff adnoddau cyhoeddus eu defnyddio yn fwy effeithiol ac effeithlon, ac maent wedi ymrwymo i weithio er mwyn sicrhau mwy o ryngweithredu a safoni ar draws pob maes plismona.

Yn ystod y cyfnod hwn, sefydlwyd Rhaglen Cynghrair Fforensig y tri heddlu i gynnwys Achrediad Fforensig, Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, a Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru.

Cafodd y prosiect gwefru rhanbarthol sefydledig sy'n canolbwyntio ar ddatgarboneiddio cerbydau'r heddlu ei adolygu a'i ddatblygu yn ystod y cyfnod hwn i gynnwys caffael gwefrwyr ar y cyd dros gyfnod o ddwy flynedd fel prawf o gysyniad i alluogi heddluoedd i fonitro unrhyw drefniadau masnachol.

Ym mis Mai 2023, sefydlwyd Unigolyn Cywir Gofal Cywir ac mae'n rhaglen waith genedlaethol sydd wedi'i dylunio i gysylltu pobl â'r gofal cywir a chefnogi'r defnydd priodol o lwybrau atgyfeirio drwy frysbennu cychwynnol.

Bydd penderfyniadau a wneir adeg brysbennu yn pennu a oes angen asesiad a chymorth gan wasanaethau iechyd meddwl arbenigol neu wasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau trydydd sector eraill, a pha mor frys yw'r ymateb sydd ei angen. Er nad yw'n gydweithrediad ffurfiol, mae heddluoedd Cymru yn cydweithio i roi'r newidiadau ar waith yn benodol mewn perthynas â pholisi, prosesau, ac adrodd ar berfformiad.

## 5. Datblygu gallu’r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth ac unigolion o fewn yr endid

Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl strwythurau a rolau diffiniedig i alluogi arweinyddiaeth effeithiol yn unol â Phrotocol Plismona 2011, gyda chytundebau lleol o rolau a chyfrifoldebau a nodir yn y Cyd-fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.

Mae strategaeth arweinyddiaeth yr heddlu yn cefnogi datblygiad arweinwyr presennol ac arweinwyr y dyfodol i'w galluogi i gyrraedd eu llawn botensial. Mae'r heddlu’n grymuso arweinwyr i adeiladu timau effeithiol sy'n cyflawni'n gyson, gan ddeall bod arweinwyr effeithiol yn effeithio'n uniongyrchol ar gymhelliant a chadw.

Mae'r heddlu wedi mabwysiadu Rhaglen Arweinyddiaeth y Coleg Plismona, a chyflwynir lefelau 1-3 sy'n cynnwys hyd at reolwyr canol o fewn yr heddlu. Cyflwynir lefel 4 (uwch-arweinwyr) a lefel 5 (arweinwyr gweithredol) gan y Coleg Plismona.

Mae strategaeth lesiant yr heddlu yn cofleidio'r Strategaeth Llesiant Golau Glas ac yn cael ei meincnodi yn erbyn Safon Llesiant Buddsoddwyr mewn Pobl. Mae strategaeth lesiant yr heddlu yn cyd-fynd â saith thema llesiant o fewn Fframwaith Lles Golau Glas sef arweinyddiaeth, rheoli absenoldeb, creu’r amgylchedd, iechyd meddwl, amddiffyn y gweithlu, gwydnwch personol, ac iechyd galwedigaethol.

Yn 2023 gwelwyd cymorth llesiant yn gwella ymhellach gyda buddsoddiad i atgyfnerthu’r tîm iechyd galwedigaethol drwy gyflogi cynghorydd ychwanegol a gwella sgiliau’r ddau gwnselydd mewn seicotherapi Dadsensiteiddio ac Ailbrosesu Symudiadau'r Llygaid (EMDR).[5] Ehangodd yr heddlu hefyd y grŵp o swyddogion a staff sy'n cael cynnig sgrinio seicolegol i nodi'r angen am gymorth personol. Cyflwynodd yr heddlu gŵn llesiant achrededig Oscar Kilo sy'n darparu cymorth i dimau sy'n mynychu digwyddiadau hir neu drallodus ac aeth y cŵn i ymweld â chanolfan reoli'r heddlu yn aml.

Gweithredwyd system rheoli cleifion iechyd galwedigaethol newydd a gaffaelwyd ar y cyd gan y tri heddlu yn ne Cymru. Mae'r system yn galluogi'r heddlu i symud oddi wrth system cofnodion iechyd galwedigaethol ar bapur, gan wella effeithlonrwydd a lleihau biwrocratiaeth.

Diweddarwyd y proffil asesu datblygiad sy'n gysylltiedig â'r safonau cynnydd cyflog y cyfnod hwn i gynnwys gofyniad i ddangos tystiolaeth o gamau a gymerwyd i gefnogi cynllun gweithredu hil Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Choleg Plismona'r Heddlu.

Ailstrwythurwyd portffolios uwch-arweinwyr o dan Raglen Adolygu'r Heddlu i wella cysondeb swyddogaethau o fewn portffolios ac i sicrhau bod yr heddlu yn y sefyllfa orau i gwrdd â heriau'r dyfodol ac i gyflawni'r blaenoriaethau. Dyrchafwyd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol yn Gyfarwyddwr Pobl a Sefydliad ym mis Awst 2023.

Adolygwyd yr Uned Gwella Busnes gan arwain at greu Uned Gwella Gwasanaeth newydd gyda chyfrifoldeb am arolygu HMICFRS, cofrestrfa troseddau, perfformiad a dadansoddeg a

[5] Mae dadsensiteiddio ac ailbrosesu symudiadau'r llygaid (EMDR) yn driniaeth seicotherapi sydd wedi'i chynllunio i leddfu'r trallod sy'n gysylltiedig ag atgofion trawmatig.

llywodraethu a newid. Symudodd yr adran rheoli gwybodaeth o dan yr Adran Safonau Proffesiynol.

Adolygwyd yr Uned Cefnogi Busnes, ac adliniwyd swyddogaethau. Symudodd y gyflogres ac AD trafodaethol i'r portffolio Pobl a Datblygiad Sefydliadol. Symudwyd prosesu traffig, Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC), trwyddedu arfau saethu ac eiddo i'r Portffolio Cyfiawnder Troseddol a'r Ddalfa.

Mae'r heddlu yn parhau i weithio gydag Unsain, Ffederasiwn yr Heddlu a Chymdeithas yr Uwcharolygwyr ar y cynllun naw pwynt i sicrhau dull cyson o ymdrin ag ymosodiadau ar staff a swyddogion. Mae'r heddlu yn hyrwyddo Oscar Kilo, gwasanaethau lles cenedlaethol yr heddlu, gan weithio'n agos gyda'r Coleg Plismona, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a'r Swyddfa Gartref i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

**6. Rheoli risgiau a pherfformiad trwy drefniadau Rheoli mewnol cadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus**

Mae yna ddiwylliant rheoli risg wedi'i ymwreiddio ar draws y ddau sefydliad ac ar bob lefel, gyda swyddogion a staff yn rheoli risg yn effeithiol fel rhan o'u gwaith o ddydd i ddydd.

Ar lefel adrannol a lleol, lle mae risgiau'n ymwneud â gweithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd, cânt eu rheoli drwy gofrestrau risg adrannol oni bai fod angen uwchgyfeirio risg i'r lefel strategol lle y caiff ei hasesu a'i chofnodi ar gofrestr gorfforaethol yr heddlu.

Mae trefniadau dwyochrog ar waith rhwng yr heddlu a SCHTh ar gyfer trafod unrhyw risgiau a nodwyd a allai fod yn berthnasol i'r Gorfforaeth Undyn arall. Os bydd y naill sefydliad neu'r llall yn gwrthod cais i gofnodi risg ar y ddwy gofrestr gorfforaethol, gallai'r maes risg gael ei drafod gan y Bwrdd Plismona.

Mae'r broses lywodraethu yn galluogi i risg gael ei neilltuo i'r unigolyn/unigolion neu'r adran(nau) priodol ar gyfer ei lliniaru, ei rheoli a gweithredu arni. Mae trefniadau sicrwydd corfforaethol yn ymgorffori'r tair llinell amddiffyn.

<u>Yr amddiffyniad cyntaf (swyddogaethau sy'n berchen ar risgiau ac yn eu rheoli)</u>
Caiff ei ffurfio gan reolwyr a staff sy'n gyfrifol am nodi a rheoli risg fel rhan o'u hatebolrwydd i gyflawni amcanion. Gyda'i gilydd, dylent feddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r awdurdod angenrheidiol i weithredu'r polisïau a'r gweithdrefnau rheoli risg perthnasol. Mae hyn yn gofyn am ddealltwriaeth o'r gofynion swyddogaethol, amcanion yr adran, a'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo.

<u>Yr ail amddiffyniad (swyddogaethau sy'n goruchwylio neu sy'n arbenigo mewn cydymffurfio neu reoli risg)</u>
Mae'n darparu'r polisïau, y fframweithiau, yr offer, y technegau a'r cymorth i alluogi i risg a chydymffurfiaeth gael eu rheoli yn yr amddiffyniad cyntaf. Mae hefyd yn monitro er mwyn barnu pa mor effeithiol yw'r gwaith hwnnw, ac yn helpu i sicrhau cysondeb o ran diffiniadau a mesuriad risg. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth reoli a threfniadau rheoli perfformiad.

Y trydydd amddiffyniad (swyddogaethau sy'n darparu sicrwydd annibynnol)
Fe'i darperir gan weithgarwch archwilio mewnol, Archwilio Cymru ac arolygiadau annibynnol. Gan eistedd y tu allan i brosesau rheoli risg y ddwy linell amddiffyn gyntaf, ei brif rôl yw sicrhau bod y ddwy linell gyntaf yn gweithredu'n effeithiol a chynghori sut y gellir eu gwella, eu tasgio a'u hadrodd i'r byrddau a'r pwyllgor archwilio. Mae'n darparu gwerthusiad, trwy ddull sy'n seiliedig ar risg, o effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth fewnol i gorff llywodraethu ac uwch-reolwyr y sefydliad. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd i reoleiddwyr y sector ac archwilwyr allanol bod rheolaethau a phrosesau priodol ar waith a'u bod yn gweithredu'n effeithiol.

Diffinnir risgiau gwybodaeth fel bygythiadau i gyfrinachedd: sicrhau mai dim ond personau awdurdodedig all gyrchu neu gael gwybodaeth; Uniondeb: sicrhau bod yr wybodaeth yn ddilys, yn gywir ac yn gyflawn; ac argaeledd: sicrhau bod personau awdurdodedig yn gallu cael mynediad ato pan fo angen ar yr adeg gywir ac yn y ffordd gywir.

Mae risgiau rheoli gwybodaeth yn cael eu hadrodd a'u rheoli trwy'r Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth. O bryd i'w gilydd bydd risgiau'n cael eu huwchgyfeirio i'w hystyried ar y gofrestr risg gorfforaethol gan gadeirydd y Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth.

Nododd adolygiad blynyddol yr archwiliad mewnol o risg corfforaethol welliannau a wnaed i ddileu dyblygu a sicrhau bod adrodd a rheoli risg yn gweithredu'n fwy cyson â strwythur llywodraethu'r heddlu.

Nid oedd angen unrhyw newidiadau ar gyfer adolygiad blynyddol o ddatganiad parodrwydd yr heddlu i dderbyn risg, a gymeradwywyd gan y Cyd-fwrdd Llywodraethu Corfforaethol.

Roedd rheoli risg yn destun archwiliad mewnol ym mis Hydref 2023, gyda chanlyniad yr archwiliad yn rhoi sicrwydd rhesymol. Cafwyd argymhelliad i wneud mân newidiadau ac mae'r rhain bellach wedi'u gweithredu.

Y risgiau a oedd yn parhau i fod heb eu datrys/cofrestru ar ddiwedd cyfnod adrodd 2023/24 oedd:

- Gofynion uwchraddio teledu cylch cyfyng dalfeydd oherwydd methiannau yn y system a storio
- Fformiwla ariannu'r heddlu oherwydd gostyngiadau mewn cyllid grant cenedlaethol yn deillio o adolygiad y llywodraeth o'r fformiwla ariannu
- Darpariaeth gofal iechyd yn y ddalfa oherwydd methiant i ddarparu nyrs dalfa i gefnogi lles y rheini a gedwir yn y ddalfa
- Rheoli eiddo/arddangosion yn dilyn argymhellion gan yr archwiliad mewnol mewn perthynas ag eiddo manwl
- Diffygion incwm GanBwyll a phroblemau gyda chostau gweithredu yn arwain at ansefydlogrwydd ariannol
- Hyfforddiant iechyd a diogelwch a chydymffurfiaeth oherwydd bod y contract hyfforddi wedi'i dynnu'n ôl yn genedlaethol a chydymffurfiaeth ddilynol oherwydd diffyg adnoddau i sicrhau y darperir hyfforddiant gorfodol
- Cyllid - cynnydd yn y galw oherwydd oedi archwilio allanol
- Tynnu cyllid yn ôl gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (SCCHau)

- Rhaglen Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ranbarthol oherwydd oedi sy'n effeithio'n andwyol ar y gwasanaethau cymorth sydd ar gael i oroeswyr trais rhywiol ac ymosodiadau rhywiol difrifol
- Gwasanaethau dioddefwyr Goleudy oherwydd newidiadau mewn gofynion contract a chaffael
- Cynlluniau adfer trychineb TGCh - oedi posibl wrth adfer systemau/gweithrediadau
- Profi parhad busnes a chynlluniau ymarfer/parodrwydd
- Personau wedi ymgymhwyso yn y gyfraith oherwydd diffyg cytundeb gan y Swyddfa Gartref i ddarparu indemniad sy'n arwain at bosibilrwydd na fydd gwrandawiadau camymddygiad yr heddlu yn cael eu cynnal

Risgiau a ryddhawyd neu risgiau dan adolygiad y cyfnod hwn.

- Swyddogion crwneriaid oherwydd diffyg gwytnwch adnoddau a newidiadau i ddeddfwriaeth
- Methiant injan BMWN7 oherwydd materion cadernid yn dilyn ailosod prif beryn BMW mewn injans a allai arwain at fethiant trychinebus
- Argyfwng costau byw (effaith ar staff)
- Argyfwng costau byw (effaith ar blismona gweithredol)
- Cofnodi troseddau a chymhwyso canlyniadau o ganlyniad i newidiadau yn strwythurau sefydliadau, modelau gweithredu, a newidiadau cenedlaethol
- Methiant cynhwysedd gweinydd yr Uned Cyfathrebu Digidol a Seibrdroseddu i gydymffurfio â safonau ISO17025 ar gyfer cadw copïau wrth gefn o ddata
- Larymau affráe yn y ddalfa oherwydd oedi yn y system sy'n hysbysu Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu fod y larymau'n canu
- Tocsicoleg (tocsicoleg traffig ffyrdd) oherwydd risgiau sy'n gysylltiedig â darpariaeth tocsicoleg genedlaethol
- Maes Tanio Arfau Saethu ar y Cyd oherwydd costau cynyddol yn cael effaith sylweddol ar gyllideb yr heddlu
- Adnoddau arbenigol o fewn TGCh oherwydd prinder adnoddau technegol medrus yn y farchnad

Rhyddhawyd y risgiau sy'n gysylltiedig â swyddogion crwneriaid ym mis Chwefror 2024 gan fod pob un o'r chwe elfen risg sylfaenol wedi'u lliniaru i bob pwrpas.

Caewyd y risg BMWN7 ym mis Mehefin 2023 ar ôl amnewid fflyd BMWN7.

Roedd yr adroddiad ar yr argyfwng costau byw disgwyliedig mewn dwy ran yn ymwneud â chynnydd posibl mewn trosedd yn effeithio ar alw'r heddlu oherwydd cythrwfl economaidd, a'r effaith bosibl ar staff a'u gallu i dalu costau byw ychwanegol yn nodi effaith fach. Cafodd y pryderon cysylltiedig ynghylch gweithredu diwydiannol a'r galw ar blismona eu rheoli a'u monitro drwy'r Grŵp Monitro Tensiwn. Cafodd effeithiau'r argyfwng costau byw eu monitro'n agos gyda chymorth a gwybodaeth ychwanegol ar gael i staff.

Roedd risg gwasanaethau a gomisiynir gan Goleudy yn ymwneud â chydymffurfio ag amseroldeb contract ar gyfer diweddariadau i ddioddefwyr a chydymffurfiaeth Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau a liniarwyd trwy adolygiadau a gwelliannau proses. Amlygodd adolygiad risg ym mis Mehefin 2023 effeithiau'r newidiadau yn dilyn cyflwyno system rheoli cofnodion Niche a bylchau

mewn adnoddau i gynnwys adnoddau dros dro gyda nifer o reolaethau ychwanegol wedi'u rhoi ar waith.

Rheolwyd yr estyniad i'r diffiniad o gam-drin domestig trwy brosiect asesiad risg cam-drin domestig DASH heb unrhyw effaith sylweddol ar y cyfnod adrodd hwn.

Rheolwyd risgiau yn adnoddau'r heddlu trwy Raglen Adolygu'r Heddlu ar draws nifer o feysydd busnes trwy gydol y cyfnod adrodd hwn.
Roedd cydymffurfiaeth iechyd a diogelwch yn ymwneud i ddechrau â nifer y staff a hyfforddwyd gan y Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (IOSH) a ddiwygiwyd ar ôl i'r Coleg Plismona roi'r gorau i hyfforddiant Iechyd a Diogelwch ac mae'n parhau i gael ei fonitro. Datblygwyd a gweithredwyd cynllun wrth gefn ar gyfer hyfforddiant iechyd a diogelwch yn ystod y cyfnod hwn.

Roedd datgeliad yn ymwneud â gwasanaethau a cheisiadau testun am wybodaeth a oedd wedi'u lliniaru trwy ddatrysiad TG a newid yn y broses. Mae oedi sy'n effeithio'n genedlaethol ar weithredu'r rhyngwyneb gorchymyn a rheoli gyda'r system genedlaethol rheoli trwyddedu drylliau saethu a storm yn cael eu rheoli.

Mae gofynion Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN) yn parhau i gael eu monitro. Cododd oedi cenedlaethol wrth weithredu'r rhwydwaith bryderon ynghylch cadw staff medrus ar gyfer Airwaves ond ni ddaeth i'r amlwg.

Mae pob risg yn cael ei hadrodd i Fwrdd Gweithredol yr heddlu a'r Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol gan graffu ar bob risg trwy'r Cydbwyllgor Archwilio Annibynnol.

Mae risg, sganio'r gorwel, polisi ac arolygu yn eitemau sefydlog ar agenda pob bwrdd strategol. Mae adroddiadau pwrpasol (dan gyfarwyddyd) yn cael eu paratoi a'u cyflwyno i bob bwrdd strategol.

Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, mae'r Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif yn gyhoeddus am berfformiad yr heddlu yng nghyfarfod chwarterol y Bwrdd Atebolrwydd Plismona, ble bydd yn herio yn adeiladol ac yn annog dadl ar berfformiad gweithredol.

Mae Bwrdd Perfformiad yr Heddlu yn adrodd ar berfformiad tactegol a strategol ar hyn o bryd gan alluogi uwch-arweinwyr i weithio gyda'i gilydd i wella'n barhaus, a datrys problemau a nodwyd ar y cyd trwy lens model gweithredu. Mae Bwrdd Gweithredol yr heddlu yn galluogi'r heddlu i adolygu'n fanwl y bobl, y prosesau, y technolegau a'r elfennau hanfodol eraill a'r rhyngddibyniaethau er mwyn llywio penderfyniadau strategol.

Adolygwyd prosesau a threfniadau parhad busnes yr heddlu yn 2023 yn dilyn newidiadau i'r Arfer Proffesiynol Awdurdodedig ar barhad busnes, i sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith yn dilyn COVID-19 a'r cynnydd mewn gweithio ystwyth a gyflwynwyd i'r heddlu, ac i fodloni gofynion nifer o adroddiadau ar risgiau cenedlaethol posibl drwy gydol 2023/24.

Mae'r heddlu'n cynrychioli rhanbarth Cymru ar y gweithgor cenedlaethol ar barhad busnes ac mae wedi adolygu ac ailddatblygu'r holl dempledi, canllawiau a datblygu fideos dysgu cryno ar gyfer yr holl staff a fydd ar gael 24/7 o fis Medi 2024 ymlaen. Mae hyfforddiant pwrpasol ar gyfer

penaethiaid aur ac arian a rheolwyr digwyddiadau'r heddlu i gynnwys cynlluniau 'awr aur' ar gyfer senarios penodol hefyd yn cael ei ddatblygu.

7. **Rhoi arferion da ar waith mewn perthynas ag adrodd ac archwilio tryloywder er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol**

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau yn atebol iddynt drwy'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn y ddau sefydliad. Mae'r ddwy wefan yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn unol â deddfwriaeth.

Mae gweithgarwch arolygol ac archwiliol gan gyrff craffu allanol, gan gynnwys Archwilio Cymru ac HMICFRS yn parhau i ysgogi gwelliant busnes. Caiff argymhellion eu hystyried yn ofalus gan reolwyr a'u rhoi ar waith lle bo'n briodol, a goruchwylir yr holl gamau gweithredu gan grwpiau llywodraethu perthnasol. Caiff adroddiadau HMICFRS eu monitro trwy gynnal cyfarfodydd ag arweinwyr busnes. Mae hyn wedi arwain at HMICFRS yn cyflawni nifer sylweddol o feysydd i'w gwella ac argymhellion.

Ni ellir gwneud cymariaethau uniongyrchol o arolygiadau blaenorol ac arolygiad Peel 2023-25HMICFRS oherwydd bod yr arolygiaeth yn canolbwyntio mwy ar gyflawni canlyniadau priodol i'r cyhoedd ac o newidiadau i'r agweddau ar blismona a arolygwyd.

Mae HMICFRS yn cydnabod bod heddluoedd Cymru yn gweithredu mewn cyd-destun gwahanol i'r rhai yn Lloegr lle mae angen i Gymru gydymffurfio â gofynion rheoleiddio Cymru a Lloegr.

Ar y cyfan, roedd arolygydd EF yn fodlon â'r rhan fwyaf o agweddau ar berfformiad yr heddlu, gan gydnabod hefyd bod cyflwyno system cofnodi troseddau a rheoli cofnodion Niche newydd wedi effeithio ar brydlondeb rhai gweithgareddau wrth i swyddogion a staff addasu i ffyrdd newydd o weithio. Hefyd nododd safonau trawiadol wrth ymchwilio'n effeithiol i drosedd.

Canfu'r arolygiaeth fod yr heddlu yn ymateb yn brydlon i alwadau am wasanaeth ac yn brysbennu'n effeithiol. Fodd bynnag, mae angen gwella cyfradd y galwadau sy'n rhoi'r gorau i aros nad ydynt yn rhai brys yn ogystal â gwella defnyddio THRIVE (bygythiad, niwed, risg, ymchwilio, bregusrwydd, ac ymgysylltu) i flaenoriaethu'r ymateb i alwadau. Mae'r heddlu wedi cyflwyno cyfarfod rheoli dyddiol newydd sy'n canolbwyntio ar nifer y galwadau a pherchnogaeth digwyddiadau ar raddau ymateb is sydd wedi lleihau nifer y digwyddiadau mewn ciwiau heb eu monitro.

Mae'r heddlu'n mynd ar ôl troseddwyr ac yn rheoli'r rhai a ddrwgdybir mewn achosion nad ydynt wedi'u datrys a drafodir mewn cyfarfodydd rheoli dyddiol. Mae'r heddlu yn gwella rheolaeth troseddwyr rhyw cofrestredig yn unol ag arfer proffesiynol awdurdodedig.

Graddiwyd rheolaeth effeithiol o angen gweithredol sef cefnogi lles ei swyddogion a'i staff fel un sydd angen ei wella gan yr arolygiaeth. Roedd pryderon yn cynnwys swyddogion a staff mewn rolau risg uchel a'r rhai sy'n delio â digwyddiadau trawmatig gyda'r argymhelliad bod angen i'r heddlu wella ei ddealltwriaeth o anghenion lles ei swyddogion a'i staff. Mae'r heddlu yn darparu ystod o fesurau lles, ond mae ymwybyddiaeth gyfyngedig ar draws yr heddlu.

Canfu’r arolygiaeth fod cynlluniau ariannol yr heddlu, gan gynnwys y rhaglen fuddsoddi, yn fforddiadwy ac y byddant yn helpu’r heddlu i fodloni gofynion y dyfodol gan gyflawni gwobr [Rhagoriaeth Ariannol mewn Plismona.]

Mae'r Heddlu’n cynnal dull effeithiol o ddatrys problemau, gan weithio gydag asiantaethau sector cyhoeddus eraill sy'n canolbwyntio ar ymddygiad gwrthgymdeithasol ac amddiffyn pobl fregus, gyda threfniadau effeithiol ar waith i amddiffyn pobl fregus.

Mae gan yr heddlu ddealltwriaeth dda o'r galw ym mhob maes, gan wneud yn siŵr bod ganddo'r gallu a'r gallu i reoli'r galw presennol ac yn y dyfodol yn y modd mwyaf effeithlon.

Mae’r Comisiynydd yn darparu gwelededd a sicrwydd allanol drwy’r Panel Sicrhau Ansawdd a sefydlir i graffu ar ansawdd cyswllt yr heddlu â’r cyhoedd. Mae’r panel yn fforwm tryloyw ac annibynnol ar ran cymunedau Dyfed-Powys.

Mae gwelliannau yn y prosesau archwilio mewnol wedi'u cyflwyno i gynnwys.

- Sesiynau briffio ôl-archwiliad i atgyfnerthu'r broses
- Gwella cyfathrebu i wella dealltwriaeth o'r broses archwilio mewnol
- Rhanddeiliaid allweddol i'w cynnwys mewn cyfarfodydd cwmpas archwilio mewnol cychwynnol.

Mae blaengynlluniau i wella’r broses archwilio mewnol ymhellach yn cynnwys adrodd ar argymhellion archwilio mewnol ac adolygu cwmpasau archwilio mewnol mewn byrddau strategol fel eitem sefydlog ar yr agenda yn 2024.

Mae’r Grŵp Llywodraethu Archwilio ar y Cyd yn cyfarfod bob chwarter i adolygu adroddiadau archwilio mewnol a chynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion ac i gytuno ar weithgareddau a chynlluniau archwilio a dod ag atebolrwydd i arweinwyr busnes am gamau gweithredu, gan sicrhau bod gwelliannau’n cael eu gwneud, bod risgiau’n cael eu nodi, eu rheoli a’u hystyried o ran rhaglenni archwilio mewnol. Gofynnir am gyfraniad gan y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a'r Cydbwyllgor Archwilio wrth gwblhau'r rhaglen.

Mae'r swyddogaeth archwilio mewnol wedi'i chontractio i asiantaeth allanol, gan gadw annibyniaeth weithredol.

Roedd y rhaglen ar gyfer y flwyddyn 2023/24 yn cynnwys 28 o archwiliadau. Ar hyn o bryd mae pob heddlu yng Nghymru yn cymryd rhan mewn rhaglen archwilio gydweithredol sy'n darparu budd economaidd a chyfle ar gyfer dysgu ar y cyd, gan gynnwys nodi arferion gorau. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 8 o'r 28 archwiliad ar y cyd.

Arweiniodd 12 archwiliad at sicrwydd sylweddol, 12 at sicrwydd rhesymol, dau ar archwiliad dilynol a dau at sicrwydd cyfyngedig yn 2023/24.

Mae angen craffu ychwanegol ar feysydd sy'n denu sicrwydd cyfyngedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid gwasanaeth fynychu cyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio i roi mwy o gyd-destun ac i ymateb i gwestiynau. Mae archwiliadau terfynol, argymhellion a'u gweithrediad yn cael eu monitro gan y Grŵp Llywodraethu Archwilio a'u hadrodd i'r Cydbwyllgor Archwilio.

Mae Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yr heddlu yn cyfarfod bob chwarter i ystyried digonolrwydd trefniadau llywodraethu o fewn yr heddlu. Mae'r grŵp yn goruchwylio'r datganiad llywodraethu blynyddol ac yn monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu sy'n deillio o adolygiadau blynyddol.

Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn darparu cyngor ar y rhaglen flynyddol o archwiliadau mewnol ac yn cynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n crynhoi canfyddiadau allweddol yr holl weithgarwch a chanlyniadau archwilio, gydag argymhellion ar gyfer gwella gwasanaethau y gweithredwyd arnynt ac yr adroddir arnynt i'r pwyllgor. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cymryd rhan mewn rhaglen archwilio fewnol ar y cyd bob blwyddyn.

## 8. Adolygu a gwerthuso trefniadau llywodraethu

Mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gynnal adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu o leiaf unwaith y flwyddyn, gan gynnwys y system rheoli mewnol.

Caiff yr adolygiad o effeithiolrwydd ei lywio gan waith y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, uwch-reolwyr o fewn y sefydliadau sy’n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol a gan sylwadau a wnaed gan yr archwilydd allanol ac asiantaethau adolygu ac arolygiaethau eraill.

Y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol sy'n bennaf gyfrifol am adolygu'r gwaith llywodraethu, gyda chamau gweithredu'n cael eu hadolygu gan y Cyd-bwyllgor Archwilio. Mae cadeirydd a/neu gynrychiolydd y Cydbwyllgor Archwilio yn eistedd o fewn y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol.

Mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ac yn adolygu cynnydd yn erbyn meysydd gwella, cynnydd ac argymhellion o weithgareddau arolygu HMICFRS. Mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a'r Cydbwyllgor Archwilio yn adolygu cynnydd a chamau gweithredu a godwyd yn y datganiad llywodraethu blynyddol.

Yn unol â'r rheoliadau, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, ar ôl nodi cyngor y Cydbwyllgor Archwilio, wedi adolygu effeithiolrwydd eu gwasanaeth archwilio mewnol. Mae'r gwasanaeth wedi cydymffurfio â holl Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS).

Prif ddiben archwiliadau mewnol yw darparu sicrwydd i’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl bod rheolaethau effeithiol ar waith i reoli peryglon. I'r perwyl hwn, mae'r archwilydd mewnol yn rhoi barn flynyddol ar effeithiolrwydd y rheolaethau a adolygwyd gan y tîm archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn. Mae’r farn flynyddol hon, a nodir yn adroddiad blynyddol yr Archwilydd Mewnol, ymhlith y ffynonellau tystiolaeth allweddol sy'n cefnogi’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24 fel a ganlyn:

BARN FLYNYDDOL Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL

“Rwy’n fodlon bod digon o waith archwilio mewnol wedi’i wneud i’m galluogi i ddod i gasgliad cadarnhaol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a’r Prif Gwnstabl.

Yn fy marn i, mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl brosesau rheoli a llywodraethu digonol ac effeithiol ar waith i reoli cyflawniad eu hamcanion.

Mae'r farn hon yn seiliedig ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ac nid yw'n farn ar hyfywedd ariannol parhaus na'ch gallu i fodloni rhwymedigaethau ariannol y mae'n rhaid i Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys eu sicrhau gan eu gwahanol ffynonellau sicrwydd."

BARN FLYNYDDOL ARCHWILIO CYMRU

Mewn perthynas â Datganiad Cyfrifon 2022/2023.Oherwydd oedi wrth gwblhau cyfrifon 2021/22, roedd effeithiau canlyniadol ar gwblhau cyfrifon 2022/23. Cyflwynwyd y cyfrifon drafft i Archwilio Cymru ar 8 Rhagfyr 2023 i'w harchwilio. Cyflwynodd Archwilio Cymru farn archwilio ddiamod i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl mewn perthynas â chyfrifon 2022/2023, ac roedd yn fodlon bod gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon. Cwblhawyd cyfrifon statudol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl ar 15 Mawrth 2024.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at gyfarwyddwyr cyllid Cymru i gadarnhau disgwyliad Llywodraeth Cymru o ran yr amserlenni ar gyfer paratoi a chyhoeddi cyfrifon ariannol statudol ar gyfer 2023-2024 a'r blynyddoedd dilynol, o ystyried gohebiaeth yn ddiweddar gan Archwilio Cymru sy'n nodi eu hamserlen arfaethedig ar gyfer y tair blynedd nesaf a ddangosir yn y tabl isod.

| Blwyddyn | I'w paratoi | Ardystiad Archwilio Cymru |
|---|---|---|
| 2023-24 2024-25 | 30 Mehefin 2024 | 30 Tachwedd 2024 |
| 2025-26 ymlaen | 30 Mehefin 2025 | 31 Hydref 2025 |
| | 30 Mehefin 2026 | 30 Medi 2026 |

Mae datganiadau drafft 2023/4 wedi'u cyflwyno i Archwilio Cymru erbyn 30 Mehefin 2024 a bwriedir eu harolygu rhwng 30 Medi a 4 Tachwedd 2024.

**9. Casgliad a Datganiad Ymrwymiad**

Rydym yn fodlon bod yr adroddiad hwn yn sylwebaeth gywir ar y trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r heddlu ac o'u heffeithiolrwydd yn ystod y cyfnod hwn.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod yr holl gamau angenrheidiol yn cael eu cymryd i weithredu a chraffu ar lywodraethu effeithiol yn ystod 2024/25 a bod y meysydd a nodwyd ar gyfer gwella yn cael sylw priodol.

Rhoddir crynodeb isod o'r camau gweithredu sydd wedi'u cwblhau neu eu cyflawni, fel y'u rhestrwyd yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 22/23.

| | Camau gweithredu | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|
| | **Camau Gweithredu 19/20** | | |
| 3.2 | Hygyrchedd a thryloywder nifer o brosesau Adnoddau Dynol | Mae 23 o bolisïau AD ar gael i swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu. Trosglwyddwyd y polisïau o dudalennau mewnrwyd yr heddlu (DPPi) yn 2022. Mae gwaith yn mynd rhagddo i uwchlwytho/disodli polisïau i ryngrwyd yr heddlu fel rhan o gynllun cyhoeddi ehangach yr heddlu.<br>Cyflwynwyd templed asesiad effaith cydraddoldeb newydd yn 2023/24. | WEDI'I GWBLHAU |
| | **Camau Gweithredu 20/21** | Dim yn weddill | |
| | **Camau Gweithredu 21/22** | | |
| 5.3 | Datblygu protocol rhannu gwybodaeth rhwng yr heddlu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sy'n tanategu'r egwyddorion a nodir yn y Gorchymyn Protocol Plismona | Mae'r egwyddorion a nodir yng Ngorchymyn Protocol Plismona 2023 (wedi'i ddiweddaru) o ran rhannu gwybodaeth yn glir ac yn benodol yn adran 17(k); 19; 23(e ac l); 24(f) a 31.<br>Mae safonau cyffredin ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng yr heddlu a SCHTh i gynnwys y gofynion a nodir gan Ddeddf Diogelu Data 1998, Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Plismona a Throsedd 2017.Mae'r heddlu a SCHTh yn dilyn egwyddorion rheoli gwybodaeth yr heddlu sy'n sicrhau bod y ddwy gorfforaeth yn cydymffurfio â'r gyfraith ac yn rheoli risg sy'n gysylltiedig â gwybodaeth yr heddlu. | WEDI'I GWBLHAU |
| | **Camau Gweithredu 22/23** | | |
| 6.4 | Datblygu trefniadau perfformiad yr heddlu i sicrhau perfformiad effeithlon gan adrodd ar bob lefel o fewn yr heddlu | Mae offer arbenigol system rheoli cofnodion Niche a BI wedi'u sefydlu, mae adrodd ar berfformiad a datblygu cynhyrchion a dangosfyrddau yn broses barhaus fel arfer. | WEDI'I GWBLHAU |
| 6.5 | Adolygu'r trefniadau sydd ar waith i ddarparu arolygon statudol ac anstatudol, gan sicrhau bod adborth gan gymunedau lleol yn dylanwadu ar newidiadau mewn darpariaeth gwasanaeth | Ni chafodd yr arolwg cenedlaethol yn dilyn y peilot ei gyflwyno'n ehangach ar ôl y peilot.<br>Estynnodd Heddlu Dyfed-Powys gontract gydag ORS am flwyddyn arall, ni chafwyd unrhyw doriad yn y gwasanaeth ac mae'r arolwg bellach yn gysylltiedig ag offeryn adrodd Power-Bi. Mae hyn yn amodol ar graffu mewn cyfarfodydd perfformiad sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr yr ardal plismona lleol a'r dirprwy brif gwnstabl. Bydd adroddiad thematig chwarterol yn | WEDI'I GWBLHAU |

| | Camau gweithredu | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|
| | | cynnwys yr holl weithgarwch sicrhau ansawdd yn cael ei adrodd i Fwrdd Perfformiad y Prif Gwnstabl.<br>Yn ystod 2023-24, mae SCHTh wedi parhau i ddefnyddio ei Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr ar gyfer adborth. Maent wedi ymgynghori ag aelodau'r fforwm ar y canlynol:<br>• Rhwystrau y mae dioddefwyr yn eu hwynebu wrth adrodd am droseddau cam-drin domestig a threisio a throseddau rhyw difrifol<br>• Ailgomisiynu cynghorwyr trais rhyw annibynnol<br>• Larymau cam-drin domestig<br>Yr ymgynghoriad ar y praesept mewn arolwg blynyddol y mae SCHTh yn ei gynnal i geisio barn a safbwyntiau trigolion a threthdalwyr ar gynigion y CHTh ar gyfer gwariant yn y flwyddyn ariannol honno.<br>Yn ogystal â'r ymgynghoriad ar y praesept, ymgynghorodd SCHTh â phobl ifanc am eu barn ar blismona a throseddau yn eu hardal yn 2023-24. Rhannwyd adborth â phartneriaid mewn cynhadledd ieuenctid a drefnwyd gan lysgenhadon ieuenctid y CHTh.<br>O fis Mai i fis Awst 2024, bydd SCHTh yn ymgynghori â'r cyhoedd drwy holiadur ar-lein a chyfres o grwpiau ffocws ar yr hyn y mae pobl yn credu y dylai'r CHTh ei ystyried fel blaenoriaethau allweddol ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys yn ei gynllun Heddlu a Throseddu newydd. | |
| 6.6 | Adolygu'r trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol sydd ar waith ar gyfer y Bartneriaeth GanBwyll | Yn cael ei adolygu. Erys toriadau i gyllid a heriau ariannol yn y maes hwn. Mae adolygiad rhanbarthol dan arweiniad Heddlu De Cymru ar ran heddluoedd Cymru gyfan ar y gweill. | AR Y GWEILL |
| | **Camau Gweithredu 23/24** | | |
| 7.1 | Adolygiad Cylch Cynllunio a Sicrwydd | Cyflwynwyd gwelliannau a oedd eu hangen i gylch cynllunio a sicrwydd blynyddol yr heddlu, i gynnwys cysoni perfformiad, y gweithlu, model gweithredu ac amserlenni cyllunio ariannol tymor canolig a gofynion adrodd ym mis Rhagfyr 2023. | WEDI'I GWBLHAU |
| 7.2 | Adolygiad Fforensig Digidol | Mae nifer yr achosion a dyfeisiau yn yr ôl-groniad wedi lleihau'n sylweddol ers dechrau 2023 (o 448 i 80 ôl-groniad dyfeisiau sy'n cynrychioli gostyngiad o 82%) yn dilyn gweithredu nifer o newidiadau hirdymor o fewn cynllun gweithredu yr Uned Fforensig Ddigidol, sy'n cynnwys:<br>- Cynnydd yn nifer y staff sy'n archwilio dyfeisiau a chyflwyno strwythur adnoddau dwy haen (rolau technegydd newydd) gan wneud y mwyaf o effeithlonrwydd prosesu.<br>- Caledwedd newydd yn caniatáu amseroedd prosesu cyflymach.<br>- Gweithredu gwell seilwaith storio sy'n caniatáu storio a throsglwyddo data yn effeithlon.<br>- Caffael meddalwedd newydd gan leihau amseroedd adolygu â llaw.<br>- Mireinio prosesau a sicrhau strategaethau archwilio fforensig cymesur. | WEDI'I GWBLHAU |

| | Camau gweithredu | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|
| | | Rhoddodd yr adolygiad annibynnol drafft o'r Uned Fforensig Ddigidol gan TIAA 'sicrwydd sylweddol' yn ei asesiad cyffredinol, a nodwyd arferion da heb unrhyw argymhellion ar gyfer gwella. | |
| 7.3 | Defnyddio Stopio a Chwilio/Defnyddio Grym | Cyflwynwyd a gweithredwyd gwelliannau mewn prosesau, adrodd a chofnodi stopio a chwilio i gynnwys dangosfyrddau Power BI newydd a ddefnyddir yn fewnol a phanel craffu newydd sy'n monitro'r defnydd o stopio a chwilio ar draws yr heddlu. | WEDI'I GWBLHAU |
| 7.4 | Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu (DASH) | Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu - Mae adolygiadau eilaidd o'r holl DASH yn cael eu cynnal yn hytrach nag adolygiadau risg uchel a oedd yn wir yn ystod yr arolygiad. Mae staffio yn yr Uned Asesu Risg Eilaidd wedi newid i 10.45 cyfwerth ag amser llawn yn lle'r swyddi sefydledig o 7. Mae'n amlwg bod y cynnydd yn y galw a heriau NICHE yn golygu nad yw'r adran yn gallu ymdopi â'r galw gyda llai nag 11 o staff. Disgwylir i'r datrysiad robotig lanio ym mis Mehefin 2024, a byddwn yn ailbrisio bryd hynny. Mae pob mater wedi'i godi yn natganiad rheoli'r heddlu. Mae graddfeydd asesiad risg cam-drin domestig (DARA) newydd yn y broses o gael eu cyflwyno a chynhaliwyd hyfforddiant sylweddol ar gyfer aseswyr eilaidd a swyddogion cam-drin domestig. Mae pecyn hyfforddi hwb bregusrwydd wedi'i ddatblygu a bydd yn cael ei gyflwyno i staff yn yr haf. Mae data perfformiad yn cael ei gasglu yn y ganolfan i fonitro a rheoli ciwiau yn yr Uned Atgyfeirio Ganolog a'r Uned Asesu Risg Eilaidd gan ganiatáu mwy o ffocws ar ôl-groniadau, yn ogystal ceir adroddiadau yng nghyfarfodydd wythnosol y Prif Gwnstabl Cynorthwyol. Mae swydd y cydlynydd stelcio wedi'i llenwi ac mae swyddog gorchmynion sifil newydd, sy'n ein helpu i wella'r ymateb i ddioddefwyr. Mae'r heddlu wedi darparu hyfforddiant 'bywydau diogelach' i staff rheng flaen gyda'r gobaith y bydd hyn yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr. | WEDI'I GWBLHAU |
| 7.5 | Archwiliad Mewnol | Tendrodd yr heddlu gontract newydd i redeg o fis Medi 2024. Mae mesurau allweddol ychwanegol wedi'u cynnwys o fewn cwmpas y contract i sicrhau bod pob agwedd ar ddarparu gwasanaeth yn cael eu hadolygu a'u bod yn cyrraedd y safon. | WEDI'I GWBLHAU |
| 7.6 | Cydymffurfiaeth Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA – Cadernid Ariannol | Mae'r heddlu wedi cynnal asesiad pellach yn erbyn meini prawf yr asesiad cadernid ariannol a fydd yn cael ei drafod yn y cyfarfod cyllid strategol a'r cynllun ariannol tymor canolig nesaf ym mis Gorffennaf 2024. | AR Y GWEILL |
| 7.7 | Cydymffurfio â Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA – Arfarnu opsiynau | Gwneud gwaith pellach ar sicrhau gwerthusiadau opsiynau, gwireddu buddion, arweiniad, a chyfathrebu gyda chysylltiadau cryfach rhwng y Bwrdd Newid a Thrawsnewid a Chynllun Effeithlonrwydd yr Heddlu | AR Y GWEILL |

Cytunwyd ar y camau gweithredu ychwanegol a ganlyn yn 2023/24 o ganlyniad i'r gwerthusiad blynyddol diweddaraf o drefniadau llywodraethu.

| | Camau Gweithredu 24/25 | | Perchennog/Statws y Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 8.1 | Canlyniadau priodol i ddioddefwyr. | Mewn ymateb i argymhelliad Peel yr heddlu i gynnal adolygiad o brosesau ac opsiynau technoleg cyfredol ac atebion i sicrhau bod yr heddlu yn cydymffurfio â'r Cod Dioddefwyr ac unrhyw ofynion ychwanegol o dan ymgyrch Soteria NOM a newidiadau posibl yn dilyn cyflwyno'r Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion (2024) | Cyfiawnder Troseddol |
| 8.2 | Model Plismona Bro | Datblygu fframwaith perfformiad (diwygiedig) newydd, strategaeth tîm plismona bro, strategaeth atal ac iechyd meddwl i gynnwys newidiadau a gyflwynwyd gan Unigolyn Cywir Gofal Cywir. | Arweinydd Atal, Plismona Gweithredol |
| 8.3 | Llywodraethu corfforaethol a chyfarfodydd | Adolygu agendâu cyfarfodydd i sicrhau bod eitemau agenda sefydlog yn cael eu cynnwys ym mhob bwrdd strategol er mwyn gwella corfforaetholrwydd. | Cefnogaeth Weithredol |
| 8.4 | Sicrwydd gwybodaeth | Gwelliannau i gynnwys datblygu cofrestr asedau seiber a dangosfyrddau cryno ar gyfer risgiau seiberddiogelwch. | Rheoli Gwybodaeth |
| 8.5 | Cyfraddau rhoi'r gorau i alwadau nad ydynt yn rhai brys | Gwelliannau yng nghyfradd y bobl sy'n rhoi'r gorau i alwadau nad ydynt yn rhai brys a gwelliant yn y defnydd o THRIVE i flaenoriaethu ymateb i alwadau. | Canolfan Rheoli'r Heddlu |
| 8.6 | Ymwybyddiaeth lles | Heddlu i wella ymwybyddiaeth o gefnogaeth a mentrau lles i swyddogion a staff, yn benodol y rhai sy'n delio â digwyddiadau trawmatig. | Pobl a Datblygiad Sefydliadol |
| 8.7 | Archwiliad Mewnol | Gwelliannau yn y broses archwilio mewnol i gynnwys adolygiad o gwmpas archwiliadau mewnol ac adrodd ar argymhellion mewn byrddau strategol | Cyllid |
| 8.8 | Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol | Adolygiad o'r fframwaith llywodraethu corfforaethol yn 2024. Y fframwaith llywodraethu corfforaethol i gynnwys.<br>▪ Datganiad llywodraethu corfforaethol sy'n sicrhau eglurder i'r ffordd y mae'r ddwy gorfforaeth yn llywodraethu ar y cyd ac ar wahân.<br>▪ Cod llywodraethu corfforaethol sy'n nodi sut y caiff yr egwyddorion craidd eu rhoi ar waith, gan ddisgrifio'r strategaethau, y trefniadau, yr offerynnau, a'r rheolaethau i sicrhau llywodraethu da yn y ddwy Gorfforaeth Undyn,<br>▪ Cynllun llywodraethu corfforaethol sy'n diffinio'r paramedrau y bydd y ddwy Gorfforaeth Undyn yn cynnal eu busnes oddi mewn iddynt, a<br>▪ Polisïau a gweithdrefnau ar wahân ar gyfer pob Corfforaeth Undyn, gyda phrotocolau lle maent yn gweithredu ar y cyd. | SCHTH |

**Barn**

Ni all unrhyw ddatganiad o reolaeth fewnol roi sicrwydd llwyr yn erbyn colledion materol; bwriad y datganiad hwn yw rhoi sicrwydd rhesymol.

Ar sail yr adolygiad o'r ffynonellau sicrwydd a nodir yn y datganiad hwn, rydym yn fodlon bod gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl drefniadau llywodraethu boddhaol ar waith, gan gynnwys systemau priodol o reolaeth fewnol a rheoli risg sy'n hwyluso ymarferiad effeithiol swyddogaethau.

**Casgliad**

Mae'r adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl dros y flwyddyn ddiwethaf wedi nodi nifer o feysydd yn y gwasanaethau plismona a fyddai, o'u cyflawni, yn dangos gwell atebolrwydd, tryloywder a threfniadau gweithio effeithiol yn ogystal â chryfhau'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith ymhellach.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi ymrwymo i broses o wella llywodraethu'n barhaus, a byddant yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y camau gweithredu a restrir uchod, a byddant yn parhau i gael eu monitro drwy gydol 2024/25 gan eu bod yn parhau'n ddilys ac yn peri pryder. Bydd y gwaith o fonitro eu gweithrediad yn rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

Noder: enwau a dynodiadau i'w diweddaru isod ar adeg llofnodi.

Dafydd Llywelyn
**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Dr Richard Lewis
**Prif Gwnstabl**

Carys Morgans
**Prif Weithredwr a Swyddog Monitro**

Steve Cockwell
**Dirprwy Brif Gwnstabl**

Nicola Davies
**Prif Swyddog Ariannol dros dro**

Edwin Harries
**Cyfarwyddwr Cyllid**